# YR YMOFYNYDD.

RHIF 38.] HYDREF, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

## TRAETHAWD.

### AR Y DULL Y DYLAI GORUCHWYLWYR YMDDWYN AT EU GILYDD; A'R LLES A DDEILLIAI O HYNNY I'R MEISTRI A'R GWEITHWYR.

*Un o Destunau Eisteddfod Glyn Ebbw, yn Mai,* 1850.—*Dyfarnwyd y Wobr i J. Rhys, Penydarren.*

"I stand in a place where I am demanded by justice to speak the truth, impugn it who may so think proper." TOOKE.

NID oes dim a brawf fuddioldeb y sefydliadau a elwir Eisteddfodau, yn well na'r Testunau a gyhoeddir ganddynt, a dylai gofal arbenig fod yn hyn; sef ar fod y pethau yr ymdrinir a hwy, ac y gwerir arian am danynt, yn atteb lles presenol, neu dyfodol; a pha fwyaf cyffredinol y byddo'yr amcan, goreu oll fydd y llesiant.

Gwir yw ysywaeth, fod arian lawer wedi eu gwario, ac amser gwerthfawr wedi ei dreulio, at cynnyrchion, a darpariadau at Eisteddfodau, a'r cwbl yn hollol ddiles i'r oes bresenol, ac yn warth i'w hestyn i'r oesoedd dyfodol er engraifft, gofynaf yn ddifrifol, O ba fudd ydyw "Cân Cwn hela" i'r oes bresenol? Ac o ba les fydd estyn i'r oesoedd dyfodol Alarebau, a Bywgraffiadau am ddynion ac na wybu braidd y plwyf lle y trigent fod y fath greaduriaid mewn bod? Ond ymddengys pwysigrwydd y Testun hwn ar ddau olygiad neillduol; a saif clod y dyn neu y gymdeithas a'i cynnygodd, wedi y maluriont hwy gyda'r cyntefig ddefnydd.

Yn y golygiad cyntaf, saif y Testun hwn ar dir uchel. Am fod a fynno a Phrif Golofnau y wladwriaeth, sef Meistri, Goruchwilwyr, a Gweithwyr. A'r ail olygiad a ddengys, y dichon ymdriniad manwl a'r dyledswyddau a'r dulliau o ymddygiad sydd yn perthyn i oruchwilwyr fel cyfryngwyr rhwng meistri a gweithwyr, fod o les i'r presenol a'r dyfodol oesoedd.

Bellach rhag myned yn rhy bell yn rhaglithiol, amcanaf at y Testun rhoddedig yn ddioedi, gan obeithio cyrraedd y nod, sef dangos yn gyntaf,

"Y dull y dylai goruchwilwyr ymddwyn at eu gilydd; ac yn ail, y lles a ddeillai i'r meistri a'r gweithwyr trwy hynny."

Heb fyned ddim oddiamgylch, dechreuaf yn union gyrchol nodi y dulliau, neu y Moddau, a'r cyntaf a nodaf ydyw

## Y DULL BONEDDIGAIDD.

Gan fod Goruchwilwyr yn dal sefyllfaoedd, ac y disgwilir arnynt ymddwyn mewn modd teilwng i gyfeillach y graddau y daliant gyssylltiad a hwy, dylai yr is-oruchwyliwr feddu addasrwydd i gyfeillachu a'i uwchradd, a'r nesaf a'i uwchradd yntau, hyd oni chyhaeddir y Penmeistr; ac yn wir anrhydeddir yn fynych yr is-oruchwiliwr â chyfeillach hwnnw hefyd; ac ar yr holl risiau hyn, amlwg yw fod eisiau Boneddigeiddrwydd.—Gwir yw fod miloedd o oruchwilwyr, wedi eu derchafu i'w swyddi o radd isel iawn, yn unig trwy eu mhedr, a'u teilyngdod, ac nis gellir disgwyl oddiwrth y rhai hyn, lawer o'r defodau, a'r trefniadau, a geir ymhlith y dosparthion a gawsant fanteision addysg foreuol, ac a fagwyd mewn teuluoedd cyfrifol; ond er yr ymddengys llawer o'r pethau hynny fel addurn i ddynoliaeth, etto rhaid dweud gyda gofid, fod llawer a godwyd yn y wybodaeth o hynny, heb wybod dim am wir foneddigeiddrwydd.

Nid oes un camgymeriad fwy erchyll wedi gwthio i blith dynolion, nac enwi Balchder, yn Foneddigeiddrwydd, ac i'r llyngclyn ofnadwy hwn y syrthia llawer ysywaeth o oruchwilwyr yn eu hymddygiadau at eu gilydd, ac at eraill. Gresyn yn wir yw gweled llawer dyn o gryn fedrusrwydd i drefnu y dosparth y mae efe ynddo, o ran ei wybodaeth ynddo, ond oherwydd ei falchder ffiaidd yn gwneuthur ei hun yn destun gwawd i'w uwch radd mewn swydd, ac yn dynoethi llawer o'i ddygiad isel i fynu, a'i anwybodaeth, pa un allasai guddio am ei oes pe ymddygasai yn foneddigaidd.

Arweinir ef druan gwan mor belled o'r iawn lwybr, fel i dybied fod dillad costfawr anweddaidd i'w sefyllfa, byw moethus, a thorri llawer o ystumiau er tebygoli i'r uwchraddolion yn ei gydraddoli yntau, a braidd na heria ei uwchradd ar bob tir; maga ei blant fel mewn cystadleuaeth a'r rhai blaenaf yn ei yml, nes cynneu rhyw dan yn meddyliau yr uwch-raddolion, a lysg (er efallai yn farw) hyd oni chrino hyd nod y boncyff yn y pridd, a'r canlyniad erchyll fydd gwiwad y cwbl, yn wreiddyn a changenau, a'r oll yn tarddu o ddiffyg boneddigeiddrwydd, gostyngeiddrwydd, ac iawn gydnabyddiaeth o'r sefyllfa. Dywedaf wrth y teulu hwn:

> "Y corwynt a ddryllia yr Onnen dal fry;
> Ni wna un ymyrraeth, Eithinen, a thi"—D. Ddu.

Yr ail ddull a nodaf, ydyw

## ONESTRWYDD.

Dylai Goruchwilwyr ymestyn am hyn yn ddiflino yn mhlith eu gilydd, yn gystal ac ymhlith eraill,—a gwarthus yw deall fod cymmaint o ddiffyg o hono yn mysg pob gradd, ond yn neilldiol yn mysg Goruchwilwyr, at eraill ac at eu gilydd. Mynych iawn ysywaeth y ceir y rhain yn bradychu eu gilydd, trwy nodi beiau eu gilydd i'r uwchraddolion, neu i'r penmeistr, yn lle dywedyd wrth eu gilydd mewn ysbryd brawdgarol, gyda golwg ar les personol, a chyffredinol. Rhyw sibrwd, athrodi, ac enllibo, yw y llwybrau a deithiant, a'r amcan fydd cyrhaedd gradd ymlaen un i le y llall, neu wthio rhyw berthynas, neu gyfaill arall i mewn, heb ddim addasrwydd ynddo efallai i'w swydd, nac un olwg ar lesau na meistr, na gweithiwr, ond yn unig foddio malais, neu er mwyn llwgr-wobrwyaeth. 'Hawyr! os oes lles gyda goruchwilwyr i wneyd i feistri, a gweithwyr, ac iddynt eu hunain, onid trwy gydweithrediad y dygant hyn i ben orau? Oblegid os yw y baich yn drwm, rheitaf oll i bawb fod a'u hysgwyddau o dano, ac nid oes dim anhawsderau braidd nad ellir eu gorchfygu trwy undeb, oblegid "Undeb sydd Nerth." Cyn y gadawyf y pen hwn mae gennyf un gair difrifol i siarad a goruchwilwyr, am eu hymddygiadau at eu gilydd, sef trefn eu cyfeillachau, am ba rai y gwn ychydig trwy brofiad. Mynych, ysywaeth, yn y cyfarfodydd a ga goruchwilwyr a'u gilydd mewn Tafarndai, y gwesgir, neu yr amneidir yn rhyw fodd gan yr uwch-raddolion, i'r is-raddolion i dalu yr holl draul yfed, a byddant hwythau druain yn ymdrechu, ac yn ymwthio i gyflawni y cais, er eu eisiau ffordd arall efallai i ddiwallu y teulu,

a llanw bylchau eraill. Yn awr, cymeraf gennad i ymresymu munud ar y pen hwn. Gofynaf, Os yw y dynion hyn yn addas i lanw eu swyddi, paham y sugnir yr hyn a enillant yn gyfiawn yn y modd hwn? Os nad ydynt yn addas, a ydyw yn onestrwydd a'r perchenog, i dalu ei arian yn anghyfiawn? Os dywedir mai eu ffolineb hwy ydyw, yna gofynaf, paham na waherddir hwy i wneuthur felly, gan ei fod mor amlwg nad ydyw yn gyfiawn? Ac os mai rhag ofn, dywedaf yn eofn, ei fod yn haerllug yspeiliad, ac yn eithafion caeth wasanaeth; a thrwy gadw trefniant fel hyn i fynu, â y byd gweithfaol yn un ffau uffernol a gamwri: a phrif symudydd yr holl beiriant, ydyw anonestrwydd goruchwiliawl. A phan yr ystyriom fod canghenau o'r un pren gwenwynig yn lledu dros y dosparth gweithyrol dan eu gofal hefyd, dwedaf o eigion enaid, dileer enw y camwri hwn, a'r hwn a'i gwua oddiar du-dalenau llyfr amser.

Rhag myned yn rhy faith ar un pen, nesâf, ymlaen at Ddull arall, sydd yn anghenrheidiol rhwng Goruchwilwyr, sef

### DULL HEDDYCHOL.

Nid oes un Dosparth o ddynion ac y mae Heddwch yn ofynol rhyngddynt, yn fwy na goruchwilwyr, am eu bod megis Hedd-ynaid yn y deyrnas weithfaol; a thrwy undeb a heddwch a'u gilydd, gallant weithredu megis senedd fechan, i ffurfio cyfreithiau, a rheolau addas i lywyddu a threfnu y gweithwyr, ac wedi eu cymeradwyo gan y penmeistr, neu y prif lywydd, byddant fel dan sêl frenhinol yn gyfraith y tir hwnnw.

Ond cyn elwyf yn mhellach ar y pen hwn, crefaf ganiattad i ddiferu gair ar hyn, sef nad yw y cwbl a wneir gan oruchwilwyr mewn gweithfaoedd, yn deilwng i'w alw yn gyfraith, oblegid dylai cyfreithiau, a rheolau i drefnu dynion, fod yn unol, ac yn seileidig ar ddeddfau natur, am mai anghyfraith ydyw y cwbl ac sydd yn groes i yspryddeddf y Crewr: a dywed y clodwiw Blackstone, mai yr ormes drymaf a wyr y byd am dani, ydyw yr hyn a â dan enw cyfraith, ac heb fod felly."

Er fel y sylwasom fod Heddychlonrwydd ymhlith goruchwilwyr yn angenrheidiol, etto ceir ysywaeth rai o honynt o'r radd ganol, a'r uchaf, yn hau amryfusedd ymhlith yr Isafiaid, er mwyn digrifwch; ond yn myned yn fwy pwysig ei nattur yn y diwedd, ac wedi diystyru rhai yn y dull hwn, yn gwneuthur eu dylanwad ar y gweithwyr yn hollol aneffeithiol, a'u gwasanaeth yn ddiles: a'r cwbl o hyn yn tarddu a ffolineb, a diffyg yspryd heddychol rhyngddynt.—Y pedwerydd

### Y DULL SERCHOG.

Mae hwn etto yn ddull teilwng iawn mewn goruchwilwyr at eu gilydd, ac at bawb ond yr ystyfnig, a'r cynhenus. Ond syrthia llawer o'r uwch swyddwyr i gyfeiliornad mawr ynghylch y dull hwn, trwy ystyried fod ymddygiad caredig a mwyn at eu cyd-oruchwilwyr o isradd, yn ddiraddiad arnynt eu hunain; ac eu bod yn ddisgyn o'u cylchoedd priodol i ymostwng attynt; am hynny mabwysiadant ryw lwybr dieithr, sarrug, a thraws-arglwyddiaethol, a llywodraethant megis a gwialen haiarn, nes gosod eu braw trwy yr holl israddolion a'u hiselu yn ngolwg y dynion a lywyddant, ac hefyd eu rhoddi ar wiliadwraeth i'w drygu trwy bob llwybr a allant, a diogelu eu hunain: a mynych y crogwyd llawer Haman o'r llwyth hwn ar y grogpren a barottoent i'r diniwed Mordecai.

Ffaith anwadadwy ydyw hyn, nad yw yn gweddu i'r goruchwilwyr yn y dosparthion blaenaf ymgymysgu a'r is-oruchwilwyr, mwy nac yw yn gweddu i'r is gyfathrachu yn ormodol a'r gweithwyr, oblegid pe â'i felly; pa le byddai yr awdurdod? Ond nid oes achos am y sarugrwydd, a'r traws-arglwyddiaeth a welir yn aml ymhlith yr uwchraddolion, am fod niwed arswydol yn hyn; sef yn gyntaf arwain y dynion sydd yn arfer hyn i dybed eu hunain braidd yn oruwchnaturiol; ac ar y llaw arall mae yn tueddu i ddysgu y rhai islaw iddynt mewn awdurdod, i arfer creulonder at y rhai dan eu gofal hwythau, ac yn neillduol at y

gweithiwr tlawd: ac yn wir mae lle helaeth i ofni fod ymddygiadau anaddas goruchwilwyr at eu gilydd, ac at weithwyr, ac yn neillduol creulonder a chribddeiliaeth îs-ammodwyr diegwyddor, wedi bod yn llawer a achos yr attaliadau, a'r sefyll ymaes anffodus, sydd wedi bod drwy y gwaithfeydd laweroedd o weithiau, er mawr golled meistri, a gweithwyr.

A myrdd effeithiau erchryll rhai'n
Drywanant fel y biccell fain.

Gadawaf y rhan gyntaf o'r testun ar hyn, a phrysuraf at yr ail, sef,

### Y LLES A DDEILLIAI O HYNNY I FEISTRI A GWEITHWYR.

Mae yn rheol anffaeledig nad oes achos heb effaith, nac effaith heb achos; efelly nis gall ymddygiadau goruchwilwyr fod heb eu heffeithau da neu ddrwg. I'r dyben o ymdrin a'r rhan hon o'r testun, rhaid i ni fyned dros y grynnau, y buom yn hau ynddynt yn y rhan flaenorol o'r Traethawd, dan y ddosran gyntaf o'r testun, er medi o gynnyrch yr had hwnnw yn y lles deilliedig i'r ddau ddosparth a nodir, sef meistri a gweithwyr; ac yn mlaenaf, cynnygwn at FONEDDIGEIDDRWYDD, er gweled pa gynnyrch sydd oddiwrtho, yn gyntaf i'r meistr, ac yn ail i'r gweithiwr. Ymddengys boneddigeiddrwydd ymddygiadau goruchwilwyr at eu gilydd, yn dwyn ffrwyth da iawn i'r meistri, trwy fod yr ymostyngiad dyladwy hwnnw yn cymmeryd lle rhwng y gwahanol raddau yn eu plith, ac a duedda i ymgynghoriad am y ffordd oreu, a'r draul leiaf i ddwyn yr elw mwyaf iddynt yn wastadol oddiwrth bawb, a phob peth dan eu gofal. Medda y gweithwyr hwythau, ffrwythydd blasus a llesiol oddiar y grwn hwn, trwy gael gwrandawiad addfwyn, a siriol i'w cwynion pan dan wasgfeuon; dyledus sylw i'w hadroddiadau, a rheolau, ac ammodau, yn unol a chyfiawnder moesol, heb ofni bradwriaeth camgyhuddwyr, pa rai ni dderbynir gan oruchwilwyr boneddigaidd, ond a yrrir i'w lleoedd eu hunain. Yn ail.

### Y LLES DEILLIEDIG ODDIWRTH YMDDYGIADAU ONEST GORUCHWILWYR.

Y prif nod braidd ac y mae pob dyn a fyddo yn cyflogi dyn arall yn gyrchu atto ydyw, cael ar ddeall a ydyw o egwyddor onest, ac yn neillduol os bydd, i ofalu, fel dyn o ymddiried am eraill: ac ni ddylai neb yn wir, gan nad faint fydd galluoedd eu heneidiau, gael dal swydd, oni fyddant yn berchen yr egwyddor nefol hon, ac yn ei gosod mewn cyflawn weithrediad. Nis gall meistri gweithfeydd osod gormod gwerth ar oruchwiliwr gonest, a dylid gofalu fod ei dâl yn helaeth er calondid iddo, ac i'w gadw yn annibynol, rhag i genllif cryf tlodi ei symmud gyda'i nerth cynddeiriog o'i briodol le.

Och! Pa sawl cofgolofn fedrwn nodi yn ein gwlad yn dangos yr erchylldod, y dinystr, y wasgfa, a'r golled, a wnaeth cydweithrediad anonest Goruchwilwyr anghyfiawn, oddiwrth effeithiau pa rai mae llawer ardal dan ei chlwyf, ac yn soddi mewn tlodi, a'r boneddigion anturiawl a ymddireidasant ormod i ddynion fel rhai'n, a'i holl olud wedi ei wastraffu, eu gofynwyr yn gilwgus arnynt, a hwythau yn gorfod treulio gweddill eu tymmor yn benisel, a gofidus, a'r cwbl yn tarddu o ddiffyg onestrwydd yn eu goruchwilwydd! O'r ochr arall, medr llawer Cwm'ni, a pherchenog gweithfa, godi eu goruchwylwyr ger gwydd byd, a chyhoeddi uwch ei pennau: Dyma y colofnau ar ba rai y seiliasom lwydd ein anturiaeth, arnynt hwy y pwysa y cwbl heddyw; a'u honestrwydd a'n corona ni a hwythau tra saif maen ar faen. Os ydyw onestrwydd goruchwylwyr o gymmaint pwys i'r meistri, gofynaf yn ddifrifol, pa faint mwy i'r gweithwyr pa rai mae eu cwbl, druain, yn ymddibynol ar lafur eu dwylaw; a pha gysur mwy iddynt wedi eu llafur caled, na fod dynion o egwyddor onest yn gofalu am eu hamser a'u llafur, ac fod y tâl yn sicr a chyfiawn? Ac er

"Dwyn y geiniog dan gwynaw,
A'r teulu yn wyth neu naw,"

etto bydd y meddwl yn dawel fod yr hyn oedd yn ddyledus wedi ei dalu, neu yn sicr o hynny; a phan â eilwaith at y gorchwyl, gweithia gyda hyfrydwch yn y fan

y gosodir ef, heb geintach am bris a chaledi y gorchwyl, oblegid mae yn gweled ei fod yn cael ei ran yn onest, ac yn gydradd ac eraill, heb gesail i neb; mewn gair, y dynion gorau ar glawr byd, a mwyaf defnyddiol ydyw goruchwilwyr cyfiawn; ond nid oes yn annwn ei hun, waeth goruchwilwyr anghyfiawn.

Dynesaf etto at faes helaeth arall y buom arno o'r blaen, yn y rhan flaenaf, sef

### Y DULL HEDDYCHOL.

Maes yw hwn ac y gall meistri a gweithwyr, fedi yn helaeth arno, ac y mae ei gynnyrch yn gweddu i bawb. Er meddiant a llywodraeth boneddion gweithyddol, os na fydd heddwch yn ffynnu rhyngddynt a'u gweithwyr, trwy ddoeth drefniadau eu goruchwilwyr, nis gall y nyth fod heb ddrain ynddi; oblegid dymmuniad pob Llywydd synhwyrol yw llywyddu yn ei bobl, ac nid arnynt yn unig, ond nis gall hyn gymmeryd lle heb heddwch; a phlanhigyn yw hwn na thyfa yn hir heb ei feithrin; a'r bobl addasaf i'w feithrin yn y gweithfeydd, ac yn wir yn mhob man, ydynt y dynion canol, sef goruchwilwyr. Nid cyssur yn unig a ddeillia i'r meistri o hyn, ond elw hefyd: oblegid pob teyrnas, pob gwlad, cymmydogaeth, gweithfa, a theulu heddychol, ydynt rwym o ffynnu; ac ni cheir ond distryw ac afiwydd lle nad yw hyn. Mae lles a heddwch y gweithiwr yn annattodadwy wrth les y meistr, ac effeithiau tra annymunol a ganlynasant anghydfod rhyngddynt bob amser, am hynny dylid ymestyn at hyn yn barhaus; ond ysywaeth anhawdd iawn, ie amhossibl, fydd cadw heddwch, os bydd goruchwylwyr yn anheddychlon a'u gilydd, ac yn derbyn cyhuddiadau dirgelaidd gan y gweithwyr, ac yn dangos pleidgarwch, oblegid bydd pawb a'i blaid ac ni cheir heddwch un amser: a gwarthus yw meddwl nad oes gan lawer o oruchwylwyr un testun siarad yn eu cyfeillachau, mor felus ac ymrysonau, ymladdau, a chreulonderau tebyccach i anifeiliaid na ddynion, ac yn neill duol dynion yn llywio dynion eraill, a'u dyledswydd i osod esiampl dda iddynt bob amser.

Yn olaf, crybwyllais am ddull arall o ymddygiad ac sydd yn goron ardderchog i oruchwylwyr yn eu hymddygiad at eu gilydd, ac yn rhwym o atteb dyben da i feistr, a gweithiwr, a'r ddull hwnnw ydyw

### Y SERCHOG.

Gofyniadau teilwng iawn ar y pen hwn, ydyw y rhai hyn. Os na fydd serchogrwydd rhwng goruchwylwyr a'u gilydd, pa fodd bydd cydweithrediad rhyngddynt? Ac os na fydd cydweithrediad rhyngddynt, pa fodd y cadwant les meistr na gweithiwr mewn golwg; onid pigo beiau eu gilydd er disodli eu gilydd, fydd eu holl amcan, a rhyw greaduriaid diegwyddor wrth law pob un, megis meginiau i chwythu y marwor yn fflam, a'r meistri a'r gweithwyr yn gorfod dioddef yn drwm o'r herwydd, a'u cyfoeth a'u llafur megis yn talu am y tanwydd.

Ceir rhai meistri, druain gweinion, yn caru gweled eu goruchwylwyr yn sarrug i'w gilydd, ac i bawb o'u cwmpas; ac ystyriant hyn fel arwydd anffaeledig o burdeb egwyddor; ond mynych y cawsant eu siomu, gan dalu yn ddrud iawn am eu dysg, trwy golli rhai o'r dynion mwyaf defnyddiol yn y gwaith trwy hynny. Gweithreda serchogrwydd rhwng goruchwylwyr yn ffafriol iawn i'r meistri, trwy fod yr hwn sydd yn gryf ei ddeall yn dysgu y nesaf atto, a hwnnw, mewn achosion o angen, yn dyfod yn alluog i lanw ei le ef, fel na fyddo annhrefn yn cymeryd lle yn achos clefydau neu farwolaeth, neu pan y byddo ymadawiad yn cymeryd lle. Mae ymddygiad serchog goruchwylwyr at y gweithwyr yn eu denu hwythau i'r un llwybr, ac yn lle bod yn ddichellgar, a dymuno cwymp eu gilydd, maent yn eu hyspysu yn brydlawn a charedig am bob digwyddiadau a fyddant yn debyg o gymeryd lle, ac felly yn achub llawer o draul i'r meistri, ac yn codi cymeriad y goruchwylwyr yn eu golwg. Gellid ychwanegu llawer ar y lles hwn, ond, rhag meithder, terfynaf gan ddymuno gweled mwy o'r pethau a nodwyd yn ein holl weithfeydd, ac yn mhob dosparthion ar dir a mor, gan fod y lles cyffredinol yn ymddibynu cymaint ar y pethau a nodwyd.

J. RHYS.

# DUWDOD CRIST.

## LLYTHYR I.

Mr. Ymofynydd,—Wedi darfod bellach ag athrawiaeth y drindod, fel y cyfryw, er hynny, nid wyf wedi darfod a'i gwahanol ganghenau. Y ffordd a ddefnyddir gan rai i brofi'r drindod yw hon: mae'r Tad yn Dduw, gellir profi hyn oddiwrth dystiolaeth yr ysgrythyrau; mae'r mab yn Dduw, gellir profi hyn (?) hefyd, meddant oddiwrth yr ysgrythyrau; mae'r Yspryd Glan yn Dduw, gellir profi hyn etto (?) oddiwrth yr ysgrythyrau; ac etto mae'r ysgrythyr yu dywedyd yn bendant nad oes ond un Duw; felly, dyma drindod yn undod, ac undod yn drindod. A chaniattau yr holl osodiadau uchod, y mae'r prawf yn gloff; oblegid nid trindod yn undod sydd yn cael ei gosod allan, ond *tri Duw* ac etto nad oes ond *un Duw*, yr hyn sydd groesddywediad amlwg a gwrthun. Felly nid oes y fath drindod a ddysgir yn gyffredin, a chaniattau fod yr ysgrythrau yn cynnwys y gosodiadau uchod; ond pêll, pêll iawn ydwyf o ganiattau y ddau osodiad olaf, fod yr ysgrythyrau yn gosod allan dduwdod priodol y Mab na'r Yspryd Glan. Y blaenaf o'r ddau hyn sydd i fod yn destun ein hymofyniad yn awr, ac i fod felly am gryn amser, trwy eich caniattad chwi Mr. Ymofynydd.

Wel, a ydyw ein Harglwydd Iesu Grist yn wir a phriodol Dduw, ai nid yw? Yr wyf yn atteb, nac ydyw; oblegid yn gyntaf y mae'r trindodiaid eu hunain yn addef ei fod ef yn ddyn, ac i'm tyb i y mae digon yn yr addefiad i ddadymchwelyd y dyb wrthwynebol: os oedd yn ddyn, yna nis gallasai fod yn Dduw mwy nag y gallasai fod yn winwydden, yn oen, yn llew, yn ffordd, yn ddrws, er mewn rhyw ystyr y gellir cymmwyso y cyfryw eiriau iddo. Meddyliwn yn awr fod cenhadwr trindodaidd yn ymresymu a phagan eilunaddolgar, ac yn ymdrechu dangos iddo y ffolineb o addoli neb ond Duw yn unig, ac yng nghwrs yr ymresymiad fod y pagan yn addef mai pren, a maen, y crocodile, y neidr neu ryw greadur arall yw gwrthrych ei addoliad, a fyddai efe ddim yn barod i waeddi allan yn fuddugoliaethus, os pren a maen, yna nis gall fod yn Dduw, os creadur, yna nid Duw mo hono: ond wele'r pagan yn troi'n *round*, ac yn dywedyd wrtho, ei fod yn addef ei fod yn bren neu faen, ond ei fod ef hefyd yn Dduw; ai nid teimladau o dosturi fyddai ym monwes y cenhadwr wrth weled cyflwr isel gwybodaeth y pagan? Y mae'r cenhadwr ei hun, er hynny, yn yr un cyflwr yn gymmwys a'r pagan ar y cwestiwn hwn. Addefa fod Iesu yn ddyn, ond myn ei fod yn Dduw hefyd, yr hyn sydd yr un mor amhosibl ag i dammaid pren y pagan fod yn Dduw.

Yn nesaf nis gall fod y Duw goruchel yr hwn a grëodd ac sydd yn cynnal y bydoedd, oherwydd fod ei iaith ef ei hun am dano ei hun yn hollol anghyson a'r cyfryw dyb. Dywed ef mai Duw a'i hanfonodd ef i'r byd; fod ei Dad yn fwy nag ef; mai dyn oedd a ddywedodd y gwirionedd wrth yr Iuddewon gwaedlyd a geisient ei fywyd; ei fod yn anwybodus o ddydd y farn, a phawb eraill hefyd, ac nad oedd ond y *Tad yn unig* yn gwybod hynny; dywed ef mai fel yr oedd y Tad yn gorchymyn iddo yr oedd ef yn llefaru, ac y gwyddai fod ei orchymyn ef yn fywyd tragywyddol; mai'r Tad, yr hwn oedd yn aros ynddo oedd yn gwneuthur y gweithredoedd nerthol oedd yn cydfyned a'i weinidogaeth; dywedodd na allai wneuthur *dim o hono ei hun;* y cai ei fradychu i ddwylaw ei elynion, a'i osod i farwolaeth. A ydyw yn bossibl meddwl mai dyma fel y siaradai y goruchel Dduw am dano ei hun? Ond, gwn yr atteb a roddir yn gyffredin i'r dystiolaeth, y mynydd tystiolaeth, a gawn o'i ddyndod yn y pedair efengyl; dywedir mai "fel yr oedd yn ddyn" yr oedd yn siarad felly. *Fel yr oedd yn ddyn!!* Fel peth arall o ran ei berson y gallasai lefaru? Ond o ran swydd yr oedd yn llanw'r un uchelaf; ac yn y swydd hon, yn ei *fel* oreu y mae'n siarad rhai o'r pethau a grwybwyllais. Bydd esiampl neu ddwy yn ddigon i ddangos hocced a thwyll y ddwy fel yma. "Pe carech fi," medd yr Iesu, "chwi a lawenhaech am i mi ddywedyd, yr wyf yn myned at y Tad: canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi." Yn ol *system* y trindodiaid dylasai'r Iesu ddywedyd yma, "Canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi" *fel yr wyf yn ddyn:* ond hyn ni ddywedodd yr

Iesu, a lle mae ef yn ddistaw, dylent hwythau fod yn fud yn sicr. Ond ni a ganiattawn am fynud mai felly y dylasai ddywedyd, er gorfod trwy hynny ganiattau fod diffyg mawr yng ngeiriau yr hwn ni lefarodd dyn erioed fel efe; yna dyma'r cysur sydd ganddo i roddi i'w ddysgyblion ar ei ymadawiad, sef fod Duw yn fwy na'i ddyndod ef! Beth pe clywem ryw un yn siarad fel hyn am ddyn; yn dywedyd am dano mai un mawr iawn ydyw, y mwyaf a welodd erioed, canys y mae'n *fwy na gwybedyn*: A fyddai ddim i bob un ystyried y cyfryw un allan o'i synwyrau, neu ei fod yn cellwair? Ond beth yw hyn at yr iaith gellweirus y mae'r trindodwr yn osod yng ngenau'r Iesu. "Pe carech fi," medd yr Iesu, "chwi a lawenhaech:" am beth, Iesu? Beth yw'r achos sydd ganddynt i lawenhau? "Canys y mae fy Nhad yn fwy na nyndod i." Yr un peth y fuasai iddo ddywedyd fod ei Dad yn fwy na'i fys bach ef, neu flewyn o wallt ei ben ef, a hynny yn gymmwys, ac fod ganddynt achos llawenhau o'r herwydd. Nid dyma'r fath ymresymwr a diddanydd oedd yr Iesu. Gwyddai fod ei ddisgyblion yn drist oherwydd ei fod yn ymadael a hwynt; yr oeddent wedi gweled y gweithredoedd nerthol a wnaeth Duw trwyddo, wedi clywed athrawiaeth felus Duw o'i enau, ac yr oedd tristwch wedi llanw eu calonau am ei fod ar ymadael a hwynt eu bod yn colli dysgawdwr mor dda, cyfaill mor ffyddlon, cynorthwywr mor rymus: nid felly medd Iesu; chwi a ddylech lawenhau ac nid tristau am fy mod i yn myned at fy Nhad, "Canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi;" er cymaint o wyrthiau a wnaeth Duw trwof fi, mae mwy etto yn ol; "Yr hwn sydd yn credu ynnof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a *mwy* na'r rhai hyn a wna efe: *oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad.*" Felly yn ei swydd uchelaf y mae'r Iesu yn dywedyd fod y Tad yn fwy nag efe. Nid oes un *trick*, dim dichell yn ei eiriau ef; eithr y maent yn gyflawn o synwyr, ac yn ffynnon o gysur i'w ddisgyblion athrist ar ei ymadawiad oddiwrthynt. Engrhaifft arall a ddygaf ymlaen i wrthbrofi'r ddwy *fel* yma sydd gan y trindodiaid, yr olaf a gaf sylwi arni yn bresennol, ond nid yr olaf sydd i'w chael, a welir yn Marc xiii. 32. "Eithr am y dydd hwnnw a'r awr ni wyr *neb*, na'r ANGYLION sydd yn y nef, na'r MAB, ond y TAD," neu yn ol Matthew, "Ond fy NHAD YN UNIG." Ai fel yr oedd yn ddyn y mae'n llefaru yma, neu yn yntau fel y *Messia, yr enneiniog*, Y MAB? Nid oes neb ag sydd wedi talu sylw i'r esgyniad a all ddywedyd hynny. Felly yn ei swydd uchelaf, fel y Mab, yr oedd Iesu yn anwybodus o ddydd y farn. Yr oedd y Mab yn gwybod llawer yn ddiamau; ond er cymaint oedd y Tad wedi ymddiried iddo, er mor helaeth ei wybodaeth o ddirgelion teyrnas nefoedd, er hynny yr oedd y Tad wedi cadw hyn iddo ei hun: nid oedd neb, dim un o'r angylion neu genhadon Duw, na'r Mab ei hun, ei gennad mwyaf, ei gennad oreu, ond y Tad yn unig, yn gwybod hyn.

Sylw arall sydd gennyf i'w wneuthur yw hwn; sef, os oedd disgyblion Crist yn gwybod ei fod yn Dduw, buasai athrawiaeth mor newydd, mor aruthrol fawr, yn sicr o effeithio ar eu hymddiddanion a'u hymddygiadau yn barhaus. Wrth siarad a'r Iesu, gwnaent hynny gyda pharchedig ofn, fel creaduriaid yn annerch eu Crewdwr mawr; buasai pob cais yn weddi, pob ymadrodd yn addoliad. Wrth siarad am dano hefyd gwnaent arfer y geiriau mwyaf uchel am dano. Ac hefyd byddai eu hymddygiadau tuag atto y fath ag i argyhoeddi pob dyn eu bod hwy, o leiaf, yn credu ei fod ef yn Dduw; na allasai athrawiaeth mor newydd, mor rhyfedd, ddim llai na dwyn yr effeithiau hyn arnynt, un ac oll o honynt. Ai felly y mae'n bod? Nage; pell iawn yw'r Apostolion na disgyblion Crist o ymddwyn felly; mor bell, yn wir, fel y mae eu hymddiddanion a'u hymddygiad wedi tywys llawer o drindodiaid dysgedig i feddwl, a chyfaddef, nad oedd duwdod eu Harglwydd ddim yn adnabyddus i'w ddisgyblion cyn tywalltiad yr Ysbryd Glan ar ddydd y Pentecost. Yr wyf finnau o'r farn na wyddent ddim am y fath athrawiaeth cyn na chwedi dydd y Pentecost. Ond at eu hymddiddanion a'u hymddygiadau tra yr oedd Crist gyda'i ddisgyblion. Siaradent a'r Iesu yn gymmwys fel cyfeillion a'u cyfaill, heb un arwydd eu bod erioed wedi dychymyg ei fod ef yn Dduw. Pan oedd Crist yn llafaru mewn damhegion wrth y bobl, y mae ei ddisgyblion yn gofyn iddo paham yr oedd yn gwneuthur hynny, ac yn ceisio ganddo i egluro'r ddammeg iddynt, gyda'r un

eofndra yn gymmwys ag y gwnaent siarad a'u gilydd. (Mat. xiii. 10, 36.) Pan mae'r Iesu drachefn yn tosturio wrth y dyrfa, am eu bod wedi bod gydag ef weithian dridiau, ac nid oedd yn dewis iddynt fyned ymaith ar eu cythlwng, rhag eu llewygu ar y ffordd, y mae ei ddisgyblion yn dywedyd wrtho, gan awgrymu yr amhossibilrwydd i gael digon i ddigoni cynnifer o fobl, "O ba le y caem ni gymmaint fara yn y ddiffaethwch, fel y digonid tyrfa gymmaint?" Nid iaith dynion yn ymddiddan a'u Duw yw hon yn sicr. Ar un achlusur neu ddau ni a'u cawn hwy yn gofyn cwestiynau lled amhriodol iddo; megis, "Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd;" eu bod hwy wedi ei ganlyn ef a gadael pob peth, a pha beth a gaent am hynny (Mat. xix. 37). Y mae gofyniad mam meibion Zebedeus iddo yn bur adnabyddus i'r rhan fwyaf, a'r atteb a roddodd yr Iesu iddi, a'r achlusur a gymerodd i geryddu balchder oddiwrth yr amgylchiad. Un amser ni gawn un o'i ddisgyblion yn ei geryddu (Mat. xvi. 22); bryd arall yn ei wadu (Mat. xxvi. 70—75): un tro arall y mae ei ddisgyblion yn sorri oherwydd yr ennaint gwerthfawr a dywalltodd y wraig ar ei ben ef, gan ddywedyd, "I ba beth y bu'r golled hon, canys fe a allasid gwerthu yr enaint hwn er llawer, a'i roddi i'r tlodion." Pan aeth i Bethania i gyfodi ei gyfaill o'r bedd, y mae Mair a Martha yn dywedyd wrtho, "Pe buaset ti yma, ni buasai farw ein brawd." *Pe buaset ti* yma, sylwch. A oedd ganddynt ryw feddwl fod Iesu yn Dduw pryd hynny? Beth! siarad fel yma a'r Duw sydd yn llanw yr holl fodoldeb a'i bresenoldeb!! Amhosibl, amhosibl. Y mae holl ymddiddanion ei ddisgyblion ag ef, yn brawf cadarn, i'm tyb i, na ddarfu iddynt erioed feddwl ei fod yn fwy nag eneiniog Duw, y Messia. Y mae eu hymddiddanion cyffredin yn fil cadarnach i brofi eu tyb hwy am dano na geiriau darneiriol a allant fod wedi arfer.

Yr un modd y cawn hwynt yn *siarad* am dano. Y mae Philip yn cyfarfod a Nathanael, ac yn mynegi iddo y newydd mawr, newydd oedd yn ddigon i beri i Iuddew neidio gan orfoledd, "Cawsom, medd efe, yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn yn y gyfraith a'r prophwydi am dano, Iesu o Nazareth, mab Joseph." Yn eu holl bregethau, a welir yn yr Actau, y mae'r Apostolion yn siarad am dano fel y Messia a groeshoeliwyd ac a gyfodwyd drachefn o feirw; soniant am dano wrth yr Iuddewon fel yr "Iesu hwn a laddasoch chwi, yr hwn a gyfododd Duw o feirw; gan ryddhau gofidiau angau;" haerant ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi. Soniant am yr arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaeth Duw trwyddo; nad oeddent yn dywedyd dim amgen am dano na ddywedasai Moses a'r prophwydi y delent i ben, "Y ddioddefai Crist, ac y byddai efe yn gyntaf o adgyfodiad y meirw, ac y dangosai oleuni i'r bobl ac i'r cenhedloedd." Swm eu holl bregethau yw, mai'r Iesu yw'r Crist, ei fod ef yn fyw, ac fod Duw wedi ei ordeinio i farnu'r byw a'r meirw. Sut mai cyfrif am y fath ymddygiad a hwn os oeddent yn credu fod Iesu yn Dduw! Nid wyf yn gofyn a oes gair yma, un arall acw, y gellir casglu oddiwrtho fod Iesu yn Dduw; ond pam na fuasai eu holl bregethau yn llawn o'r ymadroddion mwyaf pendant ar y pwnge? Nid rhyfedd yn y byd fyddai clywed dynion yn arfer y geiriau mwyaf parchus a allent am un a garent gymmaint; mae hyn yn natturiol; ond hollol groes i nattur a phob teimlad da oedd celu y peth goreu a wyddent am eu Harglwydd. Yn wir y mae hyn yn ymddangos i mi yn amhosibl, ac nad oes un ffordd i gyfrif am y fath ymddygiad, ond ar y tir eu bod yn hollol anwybodus o dduwdod Iesu Grist. Na, na, pe buasent hwy yn credu fod eu meistr yn Dduw, bryd bynnag y sonient am dano fel dyn, cymerent ofal ar y pryd i ddywedyd digon am ei dduwdod, fel na fuasai iddynt arwain neb i feddwl yn rhy isel am Greawdwr mawr y bydoedd; gwneir felly yn awr gan y trindodiaid eu hunain; ychydig sonir am ei ddyndod ef, a phan y gwnant hynny, cymmerant ofal i ddangos yr ochr arall hefyd; ac y mae hyn yn natturiol iawn: buasai yr un mor natturiol hefyd yn oes yr Apostolion; pe buasai yr un athrawiaeth yn cael ei chofleidio ganddynt hwy a fabwysiadir yn awr. Ond gan mai nid fy niben gymmaint, yn bresennol, yw profi mai dyn wedi derbyn cenhadwri oddiwrth Dduw oedd ein Harglwydd Iesu Grist, eithr yn hyttrach gwrthbrofi yr hyn a dybir fod yn dysgu ei dduwdod, af ymlaen bellach i chwilio yr ysgrythyrau a ddygir ymlaen i'r perwyl hwnw.

I. Dywedir fod y *title* JEHOVAH yn cael ei roddi i'n Harglwydd Iesu Grist yn yr ysgrythyrau, yr adnod gyntaf a gaf sylwi arni sydd yn Gen. iv. 1. "Ac Adda a adnabu Efa ei wraig; a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar Cain; ac a ddywedodd, Cefais wr gan yr Arglwydd."

Mae'r Cymro yn barod i ryfeddu pa brawf o dduwdod Crist sydd yn y geiriau uchod, lle, nad oes dim gair o son am Grist oll. Y mae'r prawf a dylai fod yn yr adnod uchod yn ymddibynu ar y cyfieithad newydd a rydd y trindodiaid i'r geiriau, "Cefais wr gan yr Arglwydd." Haera rhai o honynt y dylai y geiriau Hebraeg, *Cadithi ish eth Yehovah*, gael eu cyfiaethu, cefais ddyn, yr Arglwydd; neu cefais ddyn, sef yr Arglwydd: ac yna dywedir fod yma gyfeiriad at had y wraig yn y iii ben. 15 adnod.

Dywed Dr. J. Pie Smith "mai diben gwreiddiol, priodol ac arferol y fannod *eth*, a osodir yma o flaen Jehovah, yw gosod allan unrhyw wrthrych yn y modd mwyaf pendant ac eglur."—Scrip. Test. vol 1. B. W. § 2. Apud. Wilson.

Parkhurst a ddywed, "*I have gotten a man, the very, or even Jehovah*," cefais ddyn, y gwir Jehovah. Gan gyfeirio at Gen. iii. 15. Efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef.

Mae'n wir fod yr ystyr uchod yn perthyn i'r fannod *eth*, ac y gallasid cyfieithu'r geiriau felly pe byddai'r cyssylltiad yn gofyn hynny; ond y mae'r un mor wir fod y fannod yn cael ei chyfieithu yn aml wrth y geiriau, gan, fel y mae yn ein cyfieithad ni, trwy, gyda, ynghyda, &c. Ac mai trwy ryw air cyffelyb y dylai gael ei gyfieithu yma sydd amlwg oddiwrth y gwrthuni sydd yn canlyn o beidio gwneuthur felly.

Ond, er mwyn ymresymiad, ni a ganiatawn y dylai'r geiriau gael eu cyfieithu, cefais wr, yr Arglwydd, gan osod allan felly mai yr Arglwydd oedd y dyn neu y gwr hynny, a sonir am dano yn yr adnod. Ond pwy oedd y gwr neu'r dyn a elwid felly yn Jehovah yw'r pwngc? Wel, dim mwy na llai gwr na Chain ei hun, yn siwr; dyma'r llangc y mae'r trindodiaid yn rhoddi y titl Jehovah iddo yn eu cyfieithad newydd ond nid diwygiedig, cofiwch. Cafodd Efa wr neu ddyn; Jehovah oedd y dyn hwnnw; ie, ie, a Chain oedd y dyn—Jehovah hwnnw hefyd: onide caniattaer i mi ysgrifenu yr adnod drosti unwaith etto. Dyma hi; "Ac Adda a adnabu Efa ei wraig; a hi a feichiogodd ac a esgorodd ar Cain, ac a ddywedodd, Cefais wr, sef Jehovah," Y gwir Jehovah, medd Parkhurst. Gallasai ef ganfod duwdod Crist yn yr hen Nic ei hun am a wn i; o leiaf, gwelodd ef yn y dyn gwaethaf a rodiodd ddaear erioed, sef Cain, ïe, Cain a laddodd ei frawd. Lwc dda iddynt, druain o'u profion, meddaf fi, os dyma'r fath ydynt. Pe buasai eisiau sylw arall i ladd celain, gallaswn chwanegu, nad oes y cyfeiriad lleiaf at yr addewid a sonir am dani, na geiriau Efa, yn y Testament Newydd, ac felly na ddeallodd ysgrifenwyr hanes bywyd Crist ddim o'r geiriau felly. Sut y gall hyn fod?!

Cyn diweddu, gosodaf drindodiaid dysgedig eraill ymhen Pie Smith a Parkhurst, gwyr gymmaint eu pwysau a hwythau.

Cefais wr oddiwrth yr Arglwydd medd *Pagninus, S. Engubinus, Munster, Musculus, Castalio, Calvin, Arias Montanus, Tremellius, Junius, David Pareus, Piscator*, y ddau *Gappel, a Le Clerc.*

Trwy [yr Arglwydd] medd *Tostat, Maldonat, Salmeron, Mercer, Grotius, Guarin, Houbigant*, a'r holl Roman Catholics.

O [oddiwrth yr Arglwydd] medd *Ley, Wells, Dawson, a Dr. Adam Clarke.*

Trwy [yr Arglwydd] medd *Donag a Hewlett, Bate, Barker.*

Gan [yr Arglwydd] medd *Prof. Bush;* o neu gan [yr Arglwydd] medd *Ainsworth.*

Dyma ddigon o drindodiaid, 'does wedd, ym mhen dau neu dri.

Sylw neu ddau wrth derfynu. Mae'n amlwg i bob un a ddarlleno bum llyfr Moses, mai undodwr pur ddarfu eu hysgrifenu hwynt oll. Yn llyfr y Genesis y mae yn arfer y fath iaith am Dduw ag sydd yn hollol wrthwyneb i'r dyb boblogaidd am hanfod Duw: felly hefyd yr iaith y mae'n osod yng ngenau Duw; "Myfi, medd Duw wrth Abram, yw Duw hollalluog, rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith.

Gwel Exod. iii. 14; xx. 2, 3. Myfi yw'r Arglwydd dy Dduw.....Na fydded it dduwiau eraill ger fy mron i. Gwel hefyd Deut. iv. 39; ynghyd ag amrywiol o fannau eraill, y rhai ydynt yn britho yr Hen Destament.

Wrth derfynu, yr wyf yn dywedyd, er ffoled yw mamau yn gyffredin am eu plant, nis gallaf gredu fod Efa mor ffol a galw ei chyntaf-anedig yn Jehovah, er cymmaint ei golwg arno. Felly, ffarwel i dduwdod Crist, neu yn hyttrach, ffarwell i dduwod Cain, yma o leiaf, medd eich cyfaill, O. EVANS.

---

# EGLWYS LOEGR.

## III.—EI LITURGI.

ER mwyn onestrwydd rhaid cyfaddef fod ffurf wasanaeth yr Eglwys sefydledig ar rai golygiadau yn ardderchog iawn. Mae ysbryd derchafedig, gwir ddefosiynol, yn treiddio trwy amryw ranau o hono, ac mae'r iaith a ddefnyddir er yn syml etto yn odidog dros ben. Er mwyn onestrwydd etto rhaid rhoddi 'r clod i'r sawl sydd yn ei deilyngu. Nid y Diwygwyr yn amser Harri VIII, Edward ac Elisabeth, neu mewn geiriau eraill, nid sylfaenwyr Eglwys Loegr sydd haeddianol o'r clod am bob rhagoroldeb a welir yn y Llyfr Gweddi Cyffredin, eithr Eglwys Rhufain mewn cyfiawnder a'i pia, ac iddi hi mae'n deilwng ei roddi. Y Llyfr Gweddi Cyffredin nid yw mewn gwirionedd namyn pigion o wahanol ranau o'r gwasanaeth pabaidd cynwysedig yn y *Breviary*, y *Missal*, a'r *Ritual* wedi eu hail drefnu a'u cyfiaethu i'r Cymraeg. 'Roedd hyn yu cael ei ganiatau gan bawb yn amser y Diwygiad, oblegid, yn nheyrnasiad Edward VI, pan y darfu i wyr Devonshire godi mewn gwrthryfel oherwydd eu bod wedi cael eu hymddifadu o'u Llyfr Offeren (Mass Book), y mae'r brenin, er tawelu eu hanfoddlonrwydd, yn eu hysbysu mewn llythyr gan ddywedyd "gydâ golwg ar y gwasanaeth yn yr iaith Seisnig, hwyrach ei fod yn ymddangos i chwi yn wasanaeth *newydd*, ond mewn gwirionedd yr *hen* un ydyw wedi ei gyfiaethu." Dyna dystiolaeth Pen yr Eglwys sefydledig, ac nid yn unig hyny, ond cadarnhawyd ei chywirdeb gan Ben Eglwys Rhufain, oblegid y mae'n wirionedd teilwng o'i gofio, i rai o'r Pabau gynyg conffirmo ein Liturgi ni ar yr amod o'n dychweliad yn ol i'r Eglwys Babaidd. Mae llawer iawn o chwerwddifrio ar y grefydd Babaidd yn y dyddiau presenol, a hyny gan y rhai a gyttunant agosaf a hi yn eu hathrawiaethau a'u seremoniau, fel mae pleser pob dyn onest yw cael cyfleustra i ddychwelyd iddi y credyd o'r hwn y mae yn hir wedi cael ei hysbeilio, sef mai ei heiddo hi yn y dechreuad oedd y rhan amlaf o'r "Ffurfiau Gwasanaeth" mwyaf defosiynol a ddefnyddir yn awr yn Eglwys Brotestanaidd y wlad hon. "Eiddo Caesar i Caesar."

Ond er y gymeradwyaeth uchod y mae llawer o bethau yn y Llyfr Gweddi Cyffredin nas gall un Ymneullduwr cysson a goleudyb edrych arnynt ond gydâ'r gwrthwynebedd mwyaf, nac ychwaith ymuno mewn addoliad gydag hyfrydwch ac adeiladaeth lle mae'r cyfryw Lyfr mewn arferiad. Gellir sylwi ymlaenaf ar y Ffurf o Fedydd sydd gan yr Eglwys. Ymddengys mai athrawiaeth yr Eglwys yw, fod Babanod ar eu dyfodiad cyntaf i'r byd yn gymwys i ddim ond i dân uffern. Yn y IX erthygl "am Bechod Gwreiddiol neu Anedigol" dywedir fel hyn "ac am hyny ymhob dyn a enir i'r byd hwn, yr haeddai ddigofaint Duw, a damnedigaeth." Athrawiaeth echryslawn yw hon os nad rhywbeth gwaeth, oblegid gweler fel y mae yn gwrthwynebu ac yn diddymu cariad ac ewyllys da y Tad nefol, yr hwn sydd ddaionus i bawb a'i drugaredd dros ei holl weithredoedd; mae hefyd yn taro yn erbyn siampl nefolaidd yr Iesu, yr hwn a gymerodd blant bychain yn ei freichiau, a'u cofleidiodd, a'u cusanodd, ac a'u bendithiodd, gan ddywedyd "eiddo 'r cyfryw rai yw teyrnas nefoedd!" Wedi haeru mai y fath yw sefyllfa druenus, arswydus, pawb dynion yn eu cyflwr genedigol, dywed yr un erthygl cyn diweddu, y gellir trwy gymorth un weithred offeiriadol symud ymaith yr holl amhuredd hwn, a

diange rhag y dynged ddinystriol sydd yn aros pawb wrth natur, oblegid "nad oes damnedigaeth i'r rhai a gredant, *ac a fedyddir*." Yr hyn a amcenir ei gyfleu yn y geiriau yma yn ddiamau yw fod y cyfryw blant "ac a *fedyddir*, ac yna yn marw, yn myned yn uniongyrchol i stâd o ddedwyddwch, tra o'r ochr arll y mae y rhai sydd yn marw *heb* gael eu bedyddio, oblegid eu bod etto yn y cyflwr aflan yn yr hwn y ganed hwynt, yn cael eu traddodi ar unwaith ac yn ddiseremoni i'r "pryf nad yw yn marw, a'r tân nad yw yn diffodd." Mai nid casgliad byrbwyll ac anghyfreithlon yw hwn, a ymddengys yn eglur oddiwrth y geiriau rhyfeddol yn niwedd "Gweinyddiad Bedydd Cyhoedd Plant Bychain, i'w arfer yn yr Eglwys," yn y rhai y dywedir yn groyw "Hysbys yw trwy Air Duw, am Blant a *fedyddir*, ac a fyddant feirw cyn bod yn euog o Bechod gweithredol, eu bod yn ddiammeu yn gadwedig," gan adael i'r darllenydd i dynu yr unig gasgliad anocheladwy, yr hwn yr oedd awdnrdodau yr Eglwys yn rhy ofnus neu yn rhy gall i'w gyhoeddi sef, fod plant *na* fedyddir yn "ddiammeu" yn *ddamnedig*. Yr un lledgrybwylliad erchyll a welir fel cwmwl pygddu yn nechreu "Trefn claddedigaeth y marw," yn anafu yr holl wasanaeth, yr hwn, lawer ohono, sydd yn rhagorol a chyffrous iawn. Dyma'r geiriau "NODER yma, *Na ddylid arfer* y Gwasanaeth a ganlyn dros neb a fo marw *heb Fedydd*." Pam? Attebed y darllenydd.

Ar y dyb grybwylledig fod pob plentyn a enir i'r byd yn wrthrych digofaint Duw, a bod taenellu ei wyneb âg ychydig ddwfr, gwneuthur arwydd y Groes ar ei dalcen, a thraethu o'r offeiriad ychydig eiriau swynol uwch ei ben, yn ddigonol i'w achub rhag y cyfryw ddigofaint—ar y dyb hon mae'n seiliedig Wasanaeth y Bedydd ynghyd â'r athrawiaeth o ADGENHEDLIAD, NEU AILENEDIGAETH TRWY FEDYDD. Fel hyn y gweddia 'r Offeiriad, "Attolygwn i ti, er dy aneirif drugareddau, edrych o honot yn drugarog ar y Plentyn hwn; ei lauhau a'i sancteiddio â'r Ysbryd Glan: fel, *wedi ei wared oddi wrth dy lid*, y derbynier ef i arch Eglwys Crist;" ac etto, "Yr ym yn galw arnat dros y dyn hychan hwn, ar iddo, yn dyfod i'th lân Fedydd, *gael derbyn maddeuant o'i bechodau* (PECHODAU BABI!) trwy adenedigaeth ysbrydol." Ar ol y seremoni dywed yr Offeiriad yn beudant wrth ei wrandawyr fod y cyfnewidiad mawr hwn wedi cael ei effeithio yn wirioneddol yn y plentyn bedyddiedig, "Gan ddarfod yn awr, anwyl garedigion frodyr, *adeni* y plentyn hwn," ie diolehir i Dduw mai felly y mae. "Mawr ddiolchwn i ti, drugaroccaf Dad, ryngu bodd it' adeni y Dyn bychan hwn â'th Ysbryd Glan."

Yng ngwasanaeth Bedydd neullduol Plant mewn tai gartref dywedir fel y canlyn: "y Plentyn hwn wedi ei eni mewn pechod dechreuol, ac mewn *digofaint Duw*, sydd yn awr, trwy olchiad yr *Ad-enedigaeth ym Medydd*, wedi ei dderbyn i nifer plant Duw, ac etifeddion bywyd tragywyddol."

Gweinyddir Bedydd hefyd yn yr Eglwys ar ddynion mewn oedran, ac y mae ffurf bwrpasol wedi cael ei threfnu gyferbyn â hyn. Gan hyny os dygwydd dyn ugain, deugain, neu driugain oed, yr hwn sydd wedi byw bywyd o bob anuwioldeb, wedi llwyr ymollwng i lywodraeth nwydau a chwantau afreolus, wedi dywedyd yn ei ymddygiad os nid "yn ei galon, nad oes un Duw,"—os dygwydd hwn fod yn Ymneullduwr, ac yn petruso pa un a yw ai peidio wedi cael ei fedyddio gan "olynydd yr Apostolion," ac os â yn edifeiriol at Offeiriad cyssegredig gan arwyddocau dymuniad i dderbyn gwir fedydd Apostolaidd, nid yn unig caiff y seremoni ei chyflawni, ond, mor belled ag y gwyddis, rhoddir hefyd sicrwydd i'r bedyddiedig fod holl bechodau y bywyd a aeth heibio, o bob lliw a llun, wedi cael eu llwyr faddeu, yntau ei hun wedi ei "eni o newydd o ddwfr ac o'r Ysbryd Glan," ac er marw y funud nesaf ei fod yn etifedd bywyd tragywyddol! Ymhlith pethau eraill i'w dywedyd yn y gwasanaeth byddai a ganlyn: yna y dywed yr Offeiriad, "gan ddarfod yn awr, anwyl garedigion frodyr, adeni a dodi y dyn hwn ynghorph Eglwys Crist;" ac ychydig nes ymlaen dywed yn fwy penderfynol etto fod y dyn hwn "wedi ei eni eilwaith, a'i wneuthur yn etifedd iachawdwriaeth dragywyddol trwy ein Harglwydd Iesu Crist"

A ddichon un peth fod yn fwy arswydus ac ysgeler na hyn? A oes yma ddim anogaeth i bawb tuallan i'r Eglwys i ddyfalbarhau mewn gwneuthur pechod hyd y

diwrnod olaf o'u bywyd, yn gwybod y cant faddeuant o'r cwbl y funud a fynont trwy yn unig ddyfod yn Eglwyswyr a dymuno bendith y "nefol olchiad?" Mae ymryson mawr wedi bod yn ddiweddar rhwng Gorham, Esgob Exeter ac craill ynghylch yr adenedigaeth trwy Fedydd, pa un a yw ffurfiau'r Eglwys yn dysgu'r cyfryw athrawiaeth ai peidio, etto wedi'r holl ddadleu a'r cyfreitha nid oes un peth yn cael ei ddysgu yn eglurach na hyn yn y gwasanaeth; mae'n treiddio trwy bob rhan ohono! Mewn attebiad i'r ail ofyniad yn y Catecism, y plentyn a ddywed "Fy nhadau bedydd a'm mammau bedydd wrth fy medyddio; pan y'm gwnaethpwyd yn aelod i Grist, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd;" ac ymhellach ymlaen dywedir mai'r "Gras ysbrydol oddi fewn," yr hwn a geir trwy Fedydd, yw "marwolaeth i bechod, a genedigaeth newydd i gyfiawnder."

Amhosibl lai na bod effeithiau niweidiol iawn yn canlyn yr athrawiaeth hon, yn enwedig yn y sawl sydd yn ei chredu yn gydwybodol. Hyd yn od y gwanaf ei ddeall a wel ei bod yn ychwanegu yn fawr at awdurdod yr offeiriaid,, ac yn lle eu golygu fel hyfforddwyr mewn cyfiawnder, yn eu dyrchafu i fath o fodau braidd goruwchddynol, fel ag y gallant ddylanwadu ar gyflwr tragywyddol dynion trwy gyflawni neu wrthod cyflawni rhyw seremoniau gosodedig. Rhaid hefyd fod moesolbeb yn gorfod dioddef oherwydd effeithiau drwg yr athrawiaeth hon. Ni sonir yn yr Efengyl ond am un adenedigaeth fel yn anhebgorol i gadwedigaeth dyn, a phan y dywedir wrth aelodau yr Eglwys sefydledig eu bod wedi cael eu "hadeni" er ys hir amser bellach, naturiol, yn enwedig i'r dosparth annysgedig o honynt, dybied nad oes un cyfnewidiad arall yn anghenrheidiol, mewn gair, mewn gweithred, na dim arall, cyn cael mynediad i mewn i "deyrnas nefoedd." Ymhellach sicrhein dynion yn y grediniaeth beryglus hon gan un o Erthyglau yr Eglwys. Cefeinir at yr xviieg yr hon sy'n traethu am Etholedigaeth ac yn rhoi ar ddeall nas gall y rhai a gawsant ras unwaith byth syrthio drachefn i blith y gwrthodedigion. Yn awr pwy bynag a fedyddiwyd yn ol defod yr Eglwys sefydledig, mae wedi cael gras unwaith, oblegid mae ei bechodau wedi cael eu maddeu, yntau ei hun wedi cael ei adeni, wedi cael ei wneuthur yn "blentyn i Dduw," yn "aelod i Grist," yn "etifedd iachawdwriaeth dragywyddol," ac yn "etifedd teyrnas nefoedd. Os yw y fath freintiau a'r fath fendithion amhrisiadwy yn cael eu cynysgaeddu ar ddynion trwy y seremoni o fedydd, nid rhyfedd yn y byd i Cystenyn, yr Ymerawdwr Rhufeinig, er ei fod wedi proffesu ei hun yn Gristion er ys hir flynyddau yn flaenorol, etto ohirio ei fedydd hyd ysdod ddiweddar o'i fywyd. Nid rhyfedd hefyd i rai Offeiriaid, wedi canfod twyll a drwg duedd yr athrawiaeth hon, ddywedyd gyd â'r Parch. Mr. Biddulph "ei bod yn llawn perygl i eneidiau dynion;" neu gydâ'r Parch. Melville Horne, "ei bod wedi dystrywio mwy o eneidiau nac un cyfeiliornad arall ar llechres ddu heresiaeth." Ond rhyfeddod yn wir yw fod dynion dwfn eu dysg, yn sefyll yn uchel mewn cymdeithas, yn cymeryd arnynt eu bod yn ddynion cydwybodol, yn gwybod mor dda ganlyniadau niweidiol y dyb hon, mor aml ac mor bendant mae'n cael ei dysgu yn y ffurfwasanaeth,—rhyfedd fod dynion o'r fath hyn yn gallu aros mewn Eglwys sydd mor lygredig o ran ei hathrawiaethau. "Ha wyr, chwi a wyddoch mai oddiwrth yr elw hwn y mae ein golud ni. Mawr yw Diana yr Ephesiaid." T. T.

---

## TYSTIOLAETH YR ENWOG DR. PARR AM YR UNDODIAID.

Mr. Ymofynydd,—Y llinellau canlynol a ysgrifenwyd gan Dr. Parr, offeiriad dysgedig yn yr Eglwys sefydledig, at Archesgob Magee, oherwydd iddo, yn un o'i *charges*, alw'r undodiaid yn *anllyth'renog*. Os gwelwch hwynt yn deilwng o gongl yn eich misolyn, (fel y dywedir yn gyffredin), y maent at eich gwasanaeth chwi a'r cyhoedd. Ydwyf yr eiddoch, O. Evans.

"Fy Arglwydd,—Er fy mod yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eich Urddas mewn perthynas i rai pyngciau pwysig mewn duwinyddiaeth ddadleugar, etto yr

wyf yn mynwesu, a chan hynny gwnaf bob amser addef, tyb uchel iawn am eich talentau a'ch cyrraeddiadau. Darllenais gyda llawer o bleser ddau o'ch *charges* a gyhoeddodd eich Urddas yn ddiweddar. Yr wyf wedi eu canmol yng nghlywedigaeth, a'u cymmeradwyo i sylw, rhai offeiriaid goleudyb. Cefais ynddynt sylwedd defnyddiol iawn, a iaith ysplenydd i'w ryfeddu. Ond, gyda syndod a gofid, sylwais fod eich Urddas wedi siarad gyda diystyrwch am yr Undodiaid fel anllyth'renog. Darfu i'r haeriad beri syndod i mi, fy Arglwydd, a galwodd i'm cof yr iaith a arferodd Cicero, yn ei araeth enwog ar achos Pompey, dros Ligarius; a'r hon, mutatis mutandis, a arferaf finnau am eich sylwad creulon a dirmygus chwi ar blaid bur adnabyddus, ac efallai, un sydd ar gynnydd. Wrth siarad am undodiaeth, "alii errorem appellant, qui durius, pertinaciam, qui gravissime, impietatem—præter te adhuc nemo." Mewn dadl a ddygwyd ymlaen oddentu cant a hanner o flynyddau yn ol gyda llymder mawr, ysgrifenodd Esgob Wettenhal lyfryn synhwyrol, teg, a chymmodol iawn, yr hwn a gefais mewn pentwr mawr o ysgrifeniadau dadleugar, yn yr hwn mae'n darlunio'r Sosiniaid fel rhai bywiog, selog, synhwyrol, cyfrwys mewn dadl, diniwed yn eu buchedd gyffredinol, ac y mae'n ychwanegu, hyd yn oed duwiol, gydag eithriad i'w golygiadau neilldduol. Fe genfydd pob dyn o synhwyr cyffredin, fy Arglwydd, mai effaith pwyll a gweddeidd-dra esgobaethol yw'r geiriau cymmwysiadol, wedi eu hamcanu, yn eithaf tebygol, fel math o wlych-dammaid, i dyneru y rhan Cerberaidd o'r offeiriadaeth. Boed hyn fal y bo, y mae'r darluniad a roddodd Esgob Wettenhal o Sosiniaid ei oes ef yn atteb yn agos i'm sylwadau innau a'r Undodiaid fy oes fy hun.

"Nawr, fy Arglwydd, ni wn i ddim, na thrwy hanes, na thrwy ddarllen, am rifedi'r Undodiaid yn yr Iwerddon, na'u hysgrifeniadau, na'u dysgeidiaeth, na'u diffyg mewn dysgeidiaeth. Ar yr un pryd, gallaf ddywedyd yn gyfiawn, nad oes ymhlith y dysgedigion adnabyddus i mi yn y deyrnas hon ddim un dysgawdwr yn yr eglwys sefydledig a allwn yn ddiogel ddywedyd ei fod yn undodwr. Tu allan i furiau'r eglwys, yn wir, y mae llawer o undodiaid, a'r rhai yr wyf yn ei theimlo yn anrhydedd fy mod yn gydnabyddus, ac ni wnaf un esgusod dros goffhau eu henwau yn y llythyr hwn, a chyfaddef y parch diffuant a deimlaf i'w galluoedd deallawl, eu cyrraeddiadau mewn dysgeidiaeth, a'u gwerth moesol.

"Edrychwn o amgylch ychydig, fy Arglwydd. A wnaiff un ysgolhaig gymhwyso'r gair "anllyth'renog" i Grotius, i Curcellæus, i Susius, i Le Clerc? Dyma undodiaid enwog y dyddiau gynt. Nid darllenwr ysgafn wyf wedi bod o'r Fratres Poloni, a gallaswn enwi llawer o bersonau, daliadau y rhai ydynt yn ymddangos i mi yn gyfeiliornus, ond y rhai ni faeddiaf eu galw yn anllyth'renol. Y canrif diweddaf y bu fyw Dr. Lardner, Dr. John Jebb, Mr. John Barnes, o Goleg y Drindod, Caergrawnt, cyfaill Syr Samuel Romilly, a phrif-ysgolwr enwog yn ei ddydd am ei wybodaeth a'i fedrusrwydd mewn dysgeidiaeth awdurol. Fe allai y gellir tybied, heb anghyfiawnder, fod Edmund Law, Esgob Carlisle, yn edrych gyda llygad ffafriol ar undodiaeth tua diwedd ei fywyd myfyrgar. A oedd Esgob Law yn anllyth'renog? A oedd Dr. John Taylor o Norwich yn anllyth'renog? Ac er lleied y gallasai hawliau Dr. Priestley a Theophilus Lindsey fod i gywirdeb beirniadol yn yr iaethoedd, neu i unrhyw chwaeth manwl mewn destlusrwydd awduron Llygol, Groeg a Lladin, etto yr oedd eu sylw i Roeg yr ysgrythyrau, er na ddarfu iddo eu cadw hwy rhag yr hyn a alwch chwi yn heresi, yn ddigon i'w cadw rhag yr enw anllyth'renog? A oedd y diweddar Dug Grafton yn anllyth'renog? A oedd ysgrifenwyr y *Free and candid Disquisitions* yn anllyth'renog? Nid oeddwn yn bersonol adnabyddus a'r diweddar Mr. Cappe o York, ond y mae ei ysgrifeniadau yn cynnwys profion aml o hyawdledd, synhwyroldeb, ac yr wyf yn ychwanegu, o ddysgeidiaeth. A oedd Encedinus yn anllyth'renog? A ydyw Wegscheider yn anllyth'renog? Na foed i mi fyned heibio i rai gweinidogion ymneullduedig y rhai ydynt yn undodiaid proffesedig, ac ynghylch hawliau y rhai i gael eu galw yn ysgolheigion y gallaf lefaru, a chan hynny yr wyf yn llefaru, gyda hyder. Mr. Berry o Leicester, yr hwn at ddysgeidiaeth Roeg a Lladin sydd yn ychwanegu rhan fawr o ddysgeidiaeth ddwyreiniol; Mr. Cogan, ysgolfeistr yn

Walthamstow, yr hwn a wn trwy ymddiddan a chyfeillach epistolaidd, sydd yn ysgolhaig Groeg cywraint, ac yn ddarllenydd diwyd a didoledig o'r llyfrau beirniadol goreu a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Berlin, Leyden, Gothingen, Leipsic, a Paris; ac yn y wlad hon gan Porson, Blomfield, Goisford, Elmsley, &c. A ydyw Cogan yn anllyth'renog? Na, na. Y mae fy meddwl yn myned rhagddo at Mr. Corrie o Birmingham, yr hwn sydd nid yn unig yn eithaf adnabyddus a Philosophyddiaeth natturiol, ac yn ysgrifenydd rhyddiaeth saisneg tlws, ond y mae ganddo archwaeth odiaeth am gyfansoddiadau ysgrifenwyr Groeg a Rhufain, ac y mae yn ddarllenydd o'r hyn a ysgrifenodd Bentley, Dawes, a Toup ar lythyregaeth. Un o'r myfyrwyr mwyaf a adwaen i ydyw fy nghymydog, Mr. Yates o Birmingham. Yr wyf wedi gweled ei gasgliad rhyfeddol o lyfrau, ac yr wyf yn ei ystyried ef yn ddarllenydd diwyd a deallus ysgrifeniadau mwyaf dyrus a gorchestol duwinyddion, yn y Groeg yn gystal a'r Lladin. Cafodd Mr. Roberts o Manchester ei ddwyn i fynu mewn *classics* yn Nortwich School. Y mae ef yn ysgrifenydd rhyddiaith saisneg rhagorol, ac a ellir galw'r fath ddyn a hwn yn anllyth'renog? Y mae'n gweddu i mi, ar ol llawer ymweliad, ddwyn fy nhystiolaeth i deilyngdod Mr. Shepherd o Liverpool, ac mewn gwirionedd, mor belled ag y mae gwybodaeth iaithyddol yn myned, byddai ei gymmwysder yn anrhydedd iddo pe'r eisteddai ar y gadair esgobaethol. Y mae egwyddorion hyfoesedd yn fy attal i ymhelaethu ar ddysgeidiaeth Mr. Belsham. Nid yw nac yn deall, nac yn proffesu deall, yn feirniadol iawn, yr awduron llygol hynny a ddysgir yn ein hysgolion cyhoeddus ni, ac yn ein prif-athrofau; er hynny yr wyf yn barnu, ac yn llefaru yn barchus am ei ddysgeidiaeth feiblaidd; ac yr wyf yn dra sicr, pe buasai Archesgob Newcome fyw yn awr, y gwnai ef lefaru a barnu fel finnau. Yn fy nghymydogaeth fy hun y mae'n byw un o hiliogaeth olynol Oliver Cromwell. Nid yw yn cymeryd arno ei fod yn *glassie* dwfn, ond y mae'n berchen gwybodaeth gyffredinol helaeth; y mae'n ddarllenydd diwyd o'r Testament Groeg; y mae ganddo gyfrwysder mawr mewn ymresymu; y mae'n rhagori mewn eglurder a nerth iaith; nid yw yn geerns; nid yw yn hunanol; ond ar un neu ddau achlysur, pan ei cynhyrfwyd gan athrawd sarhaus yn ei erbyn ef a'i blaid, dadymchwelodd a distawodd rai cyhuddwyr, orthodoxy y rhai ni chanlynid gyda rhan ddyladwy o synhwyr, dysgeidiaeth, na chymedroldeb. Fe wnaiff eich Urddas gymmaint o gyfiawnder a mi a sylwi nad wyf yn bwriadu ymddiffyn yn gyfeiriol nac anghyfeiriol yr opiniynau hereticaidd o gofleidir gan neb o'r gwyr teilwng a enwais. Ond dywedwn am danynt, pun a'i wrth gyfeirio attyut yn y senedd, neu o'r pulpud, neu o'r argraph-wasg—gwnawn, fy Arglwydd, dywedwn yng nghlyw holl seneddau, a holl gymanfaoedd Crist'nogaeth, "utinam essent nostri." Yr wyf yn gobeithio gan hynny fy Arglwydd, a phe na buasech yn Archesgob, roddwn gynghor i'r perwyl hwnnw, y gwnewch, mewn rhyw argraphiad dyfodol o'ch *charge* rhagorol, alw yn ol y gair anllyth'renog. Y mae llawer o bethau eraill ar y rhai y gall eich treiddgarwch, eich dysg, a'ch hyawdledd, gael eu harfer gyda'r priodoldeb mwyaf, a llawer gwell effaith. Pe buasech yn fwy adnabyddus a mi, caech fod dyn yn fwy parod i roddi clod didwyll, cyflym, a chyflawn i'r talentau a'r ddysgeidiaeth, y rhai y mae eglwyswyr ein heglwys wedi ddangos yn ein dyddiau ni mewn amddiffyniad o'u daliadau. Balch ydwyf, fod rhan mor fawr o'r cyfryw glod yn syrthio i ran y prelad enwog at yr hwn yr wyf yn esgrifenu yn awr."

Felly y tystiodd Dr. Parr. Gwyr pob un sydd yn hyddysg o'i hanes ef, mai nid dyn i ddywedyd gormod am wybodaeth feirniadol neb oedd ef; felly mae ei dystiolaeth gynnil ef yn ddau mwy ei gwerth. Ac am ei allu i farnu ar byngciau o'r fath, nis gall fod un amheuaeth: yr oedd yn un o'r ysgolheigion Groeg goreu yn ei oes; mor dda yn wir, nes darfu i'r newyddiaduron, ar amser ei farwolaeth dalu teyrnged o barch iddo, trwy wueuthur coffadwrireth anrhydeddus am ysgolhaig; ac yn eu plith darfu i'r *Times*, os nad yw fy nghof yn fy nghamarwain (neu yn hyttraeh diffyg cof yn fy nhwyllo), ddywedyd fod marwolaeth Dr. Parr wedi achosi bwlch yn nysgeidiaeth feirniadol yr iaith Roeg na lenwid mo hono a'r frys. Y mae genym *un* neu ddau yng Nghymru hefyd yn deilwng o'r clod, er nad oes yma un Parr i'w roddi iddynt.

O. E.

# DUW A'I DDIBENION YN OL EI AIR.

MR. YMOFYNYDD,—Pe y gwybyddwn na fydd i chwi wneuthur *nonsense* hollol o'm ysgrif hon, fel y gwaethoch a'r un o'r blaen, celech etto gynnig ar rai sylwadau ar lythyron y Mr. Evans o Lambedr. Nid hawdd gweled dynion yn newid geiriau eu gohebwyr mor bell, a thynnu pob ystyr allan o'u gwaith, fel y gwneuthoch chwi a'm gwaith i yn yr Ymofynydd am y mis diweddaf, ar odre tu dalen 214.* Ofer y mae yn debyg disgwyl i'r gwr sydd yn gwella gwalleu y wasge i gydmaru ei *broof sheet* ag ysgrif ei awdwr. Os ydwyf yn methu ysgrifennu llaw mor dda a llawer, nid ydyw fy ngwaith mor ddrwg, fel nas gall neb wybod gwahaniaeth rhwng ac g; ond nid ydwyf yn cofio am un mîs a aeth heibio o'r flwyddyn honn, heb i chwi newid y llythyrenneu hyn. Wedi darllen hyn ni byddi neb yr ydwyf yn gobeithio i ddywedyd, mai fel y mae yn yr Ymofynydd yr ydwyf fi yn ysgrifennu Cymraeg.

Gan obeithio fod y rhybydd uchod yn ddigon i beri i chwi ofalu yn well; trof yn awr at y gwr o'r *Wesleyan house.* Yn y Rhif. am Ionawr 1850 y mae Mr. Evans yn dywedyd y gair nesaf am ddiben cosp yn y byd i ddyfod, ar yr 20 tudalen fel hyn, "Mae ein hawdwr yn ewyllysio credu fod colasis * * * yn arwyddo cerydd er gwellhad, ar y sail fod Plato yn rhoddi yr ystyr hynny (mewn cydgordiad a'i dyb Paganaidd) i'r gair dans ylw." Onid ydyw yn ofynnol cael dyn o dyscedidiaeth Mr. Evans cyn gallu taeru, na wyddai Plato, y Groegwr mwyaf dyscedig yn ei oes, a'r enwoccaf o Philosophyddion Groeg, ddim beth ydyw ystyr briodol gair, yn ei iaith ei hun? Beth y feddylid am y dyn a haerai, na wyr barnwr fy nghalon o'r *Wesleyan house,* ddim beth ydyw ystyr y gair LLAWLIF, yn Gymraeg? Ar ôl adrodd barn Socrates, a Phlato ar ddiben cosp mewn byd i ddyfod; mae fy ngwrthwynebydd ym myned ym mlaen, "Yn awr yr athronydd hwn heb feddu mwy na goleuni Paganaidd, ac o dan ragfarn Baganaidd sydd i fod yn ol Mr. Jones yn esboniwr ar Matt. xxv. 46." Dyna anwiredd (ni ddywedaf o amcan drwg) ni ddaeth y fath beth i'm meddwl, ac nid ydyw fy ngeiriau yn goddef y fath esboniad. Gan eich bod chwi Mr. Ymofynydd wedi nodi allan annhegwch Mr. Evans yn hyn, yn eich sylwnôd cyntaf ar odre y ddalen, nid oes eisiau i mi ddywedyd rhagor nag mai er mwyn dangos beth ydyw ystyr y gair Groeg colasis y defnyddiais enw Plato, ac nid er mwyn ei wneuthur ef yn esboniwr ar Matt. A ydyw Mr. Evans am daeru na ddylem arfer un gair Cymraeg, yn awr yn yr un ystyr ag yr arferwyd ef gan Caswallon neu ryw Gymro a fu farw heb glywed dim am Grist? Ai nid yn yr un ystyr a ninnau yr arferai adeiladwyr y deml dderwyddol yn *Stonehenge* y geiriau *carreg, bran, ceiliogcwydd?* Gwyddys eu bod hwy wedi marw fel Plato heb wybod dim am Efengyl Matt. Yn yr xxi o'r un Efengyl cawn hanes Crist ym marchogaeth *asen.* Yn awr pe bai i rywun i daeru mai seraph sydd i'w ddeall; ac nad oes gan hwnnw ond dwy droed, ac adenydd; a fyddai i ddyn o ddim deall i feio arnaf am ddwyn Plato yn awdurdod dros brofi, mai ystyr y gair '*onos,*' sef y gair Groeg a welir ym Mathew am asyn, ydyw creadur pedwar carnol. Dyma yn gymmwys yr amcan y dygais Plato i ddywedyd beth ydyw ystyr briodol y gair colasis. Wedi hyn Mr. Ymofynydd (yn eich fflangell *deilwng* ar gefn y gwr y fu yn cynnig dangos i'r pregethwyr, a fuant yn pregethu llynedd yn y cwrdd cwarter yn Abertawe, pa fodd i wneuthur pregeth *ddifai*) dangosasoch chwi, allan o waith Aristotle mai cerydd er lles y ceryddedig ydyw ystyr briodol y gair *colasis*; ac a ydoedd Mathew, neu *yn fwy tebygol* ei gyfieithwr yn arferu y gair mewn ystyr ammhriodol, er mwyn profi mai Duw *drwg,* yn cospi o *gariad at gospi,* ac nid er lles y cospedig ydyw Tad ein Harglwydd Iesu Grist? Na arferodd meddaf fi. Meddai Mr. Evans wedi'n "Mae yn well genyf gredu yr hwn a sancteiddiodd y Tad, yr hwn a ddysgodd fod cospe-

* [Pe buasai Mr. J. ond wedi cymeryd pwyll, buasai yn gwybod erbyn hyn, os nad pan yr oedd yn ysgrifenu, fod y *gwallau* yr achwyna arnynt yn *anocheladwy* mor belled ag y perthyn i ni. Y mae yn euro arnom yn bur galed. Nid yw pellder y Wasg oddiwrthym yn beth o'n dewisiad ni. Ond ni a wnawn ein goreu: a bydded ein Gohebwyr a'n Darllenwyr mor fwyn â chyd-ddwyn a ni ychydig. Wrth Mr. J. a rhai eraill o'r Gohebwyr dywedion etto, *Be perfect.*—GOL.]

digaeth dragywyddol." Ym mha le Mr. Evans? A ydyw ef am daeru mai yn *Gymraeg* yr ydoedd ein Harglwydd Iesu Grist yn arfer pregethu i drigolion Judea, y rhai ni wyddent, ar y cyffredin, ddim ond Hebraeg? neu beth y mae y dyn yn brawlan am fod Crist wedi dywedyd fod "cospedigaeth dragywyddol." Nid oes un prawf etto wedi ei gynnig, fod Iachawdwr y byd wedi traddodi cymmaint ac UN bregeth yn yr iaith Gymraeg. Sicr am hynny gennyf na ddaeth y geiriau Cymraeg "cospedigaeth dragywyddol" erioed allan o eneu Crist. "Tan anniffoddadwy," meddai Mr. Evans, "lle nid yw eu pryf hwynt yn marw na'r tan yn ddiffodd." 'Does bossibl fod y Wesleyan mawr ym meddwl, mai geiriau i'w deall yn llythrenol ydyw y rhai yna, ac mai yn allanol ar y croen y bydd poeneu y damnedigion yn y byd i ddyfod. Beth bynnag ydyw ei farn ef, yr ydwyf fi wedi dangos yn ddigon amlwg, mai tân Gehennah, neu ddyffryn Hinnom islaw Jerusalem, a'r tân a syrthiodd ar Sodom a Gomorra,* sydd i'w deall wrth y geiriau uchod, a'u bod eu dau wedi diffodd er ys cannoedd lawer o flynyddau bellach. Etto "A ydyw ein Harglwydd neu rhyw ran o'r ysgrythyr yn mynegu fod uffern yn lle y ceir dyfod o hono." Wrth uffern mae ef yn meddwl nid yr un peth a Phaul yn Cor. xv. 55. lle y dywed," '*O uffern pa le mae dy fuddugoliaeth*' ond mai lle y damnedigion yw uffern: hynny ydyw os nad ydwyf yn ei gam ddeall mai llosgi yn ddiderfyn mewn rhyw hen ffwrn o'r un wrês, a llun a ffwrn Nebucodonoser gynt, ond yn fwy ei maintioli y bydd y damnedigion tu hwnt i ardaloedd y bedd: a phe caent fel y tri llangc, eu tynnu allan, y darfyddai y boen yn y man, er fod yr egwyddorion mor ddrwg; a'r calonau mor galed, a phan yr aethant yno gyntaf. Pe bawn mor baganedd fy ngolygiadau a hyn ar natur cosp mewn byd i ddyfod, efallai y gallwn gyda fy ngwrthwynebydd gredu na ddelai byth o'r *ffry* yn ddigon ac y byddai yn rhaid ei phobi hyd yn ddiderfyn, ac heb fod ddim gwell yn y diwedd, ond yn unig cael porthi y *nwyd o ddial.* Os ydyw Mr. Evans am gael gwybod ym mha le y dysgodd Crist fod ceryddon Duw wedi cael eu bwriadu i fod o les i wella yn hollol y cospedig, edrychad trwy holl bregethau Crist. Maent oll yn gosod Duw allan yn fod daionus, ond yn bennaf hanes y mab afradlon, lle y mae y cerydd yn cael ei osod allan wedi atteb y diben yn drwyadl, a pherffeith.

Meddai y gwr sydd yn "*teimlo i'r byw*" wrth ddarllen bod diben da gan Dduw wrth gospi; "Na ddim; eithr mae †gagendor mawr wedi ei sicrhau; fel na allo y rhai a fynnant dramwy oddi yma attoch chwi, na rhai oddi yna attom ninnau." Ie Mr. Evans, nid ydyw Abraham ddim yn meddwl na allasai Duw yn ei bryd ei hun eu trosglwyddo, os na allant hwy fyned trosodd o honynt eu hunain i gyraedd dwfr i oeri tafodau rhai y lleill. 'Does yma ddim gair yng nghylch, na *diben*, na *pharhad* y gosp: am hynny ni all brofi mai bod *dialgar* a *pherffeith ddrwg* ydyw Tad ein Harglwydd Iesu Grist. Dangosais eisioes, os ydyw yn bossibl deall wrth ddameg y gwr goludog a Lazarus ryw beth yn dangos yn y mesur lleiaf *ddiben* y gosp, fod yn amlwg fod y gwr oedd yn y poenau wedi edifarhau llawer, a'i fod yn diwygio yn gyflym iawn. Myn Mr. Evans ei fod yn myned yn fwy pechadurus, yn gweddio ar ddyn yn lle ar Dduw, ond a all dyn ddim ceisio gan ei gyd-ddyn i anfon ei wâs i'r fynnon i gyraedd dwfr heb fod yn euog o eilun addoliaeth? Mae y gwr fel y dywedais o'r blaen am gael torri cyfreithiau natur er mwyn eadw ei frodyr rhag myned i'r "lle poenus hwn." Nid oes yn bossibl fod Mr. Evans am haeru mai cybydd-dod y gwr oedd yn ei yrru i rwystro ei frodyr fyned atto, rhag y buasai iddynt ddwyn rhan o'i etifeddiaeth; ac os nad hyn oedd ei amcan, rhaid mai amcan da ydoedd, a bod y dyn yn cael ei buro yn gyflym yn y fflam honno. Gan eich bod chwi Mr. Ymofynydd wedi nodi allan y camddarluniadau cywilyddus mae Mr. Evans yn eu gwneuthur o honof yng nghylch cwoto Plato, nid oes eisiau i mi wneuthur ychwaneg na dymuno ar y darllenydd i edrych ar fy ngeiriau a pheidio coelio gair Mr. Evans. Dywed ef "Ymddengys yn debygol oddiwrth reswm, ac yn bendant oddiwrth ddadguddiad fod Duw trwy gysylltu trueni a pechod, wedi bwriadu i drueni weithredu fel

* Gwel Ymofynydd am Mehefin a Awst, 1849.

† Gwelir y darllenydd yr hyn a ysgrifenais ar hyn yn yr Ymofynydd Medi, 1849.

*rhybydd;* trwy hynny rhagflaenu cyflawniad pechod; ond y mae yn wahaniaeth dirfawr rhwng fod cosp yn rhybydd i eraill, a bod yn gerydd i'r dioddefwr ei hunan." Oes, y mae ef rhaid addef. Mai ei effeith yn angnghydmarol mwy nerthol ar yr hwn sydd yn dioddef na'r hwn sydd yn gweled y poenedig yn dioddef—un a'i law yn llosgci—y llall wrth weled wyneb crychedig y dioddefwr, yn gochelyd y poen. Mae pob dyn ar ôl llosgci unwaith yn gofalu hyd eithaf ei ddeall i beidio gwneuthur yr un peth yr ail waith. Yr un athrawiaeth sydd yma etto, ag oedd yn gosod rhai yn y poenau diddiwedd er mwyn *cydgordiad* y greadigaeth. Os nad ydyw cosp yn geryddol mae yn berffeith angnghyfiawn i'w rhoddi ar *un*, i ddim ond gael dial, a rhybyddio eraill.

Dywed Mr. Evans fod "Mr. Jones yn addef fod y gair a gyficithir 'tragywyddol' yn golygu parhad diderfyn ond yn ei gysylltiad a chosp." Nag ydyw Mr. Jones ddim mor anwybodus o'r iaith Roeg ag i addef peth mor groes i'r gwirionedd, er mwyn i Mr. Evans gael cyhoeddi mai diben drwg, anfeidrol ddrwg fydd gan Dduw wrth gospi: ac os ydyw Mr. Evans wedi darllen fy llythyr yn yr Ymofynydd am Fehefin 1849, gwyr yn ddigon da ei fod yn fy nghamddarlunio yn hollol; ond ddarllenydd tro i'r Ymofynydd am y mis hwnnw, prof a gwel, a chofia wedi'n beidio coelio yr hyn a ddywed gwr o berchen ewyllys rydd i &c. Fel y gallo yr hwn sydd heb yr Ymofynydd a'm Mehefin 1849, yn ei feddiant farnu, cyfeiriaf ef at y llefydd canlynol. Troed ynteu i'r ysgrythyrau, a barned drosto ei hun. Ps. xxi. 4; Mat. xiii. 23, 39, 40, xxviii. 20; Luc xvi. 8; Ioan viii. 35, ix. 32; Rhuf xii. 2; 1 Cor. i. 20, ii. 7. Mae hynna yn ddigon i ddangos amcan Mr. Evans.

Etto, "Gan ein bod yn barod wedi profi," wedi haeru ddylasech ddywedyd ar sail ein rhagfarn ein hunain yr hon a wnaeth i ni *deimlo i'r byw* yn wyneb yr athrawiaeth sydd yn dysgeu fod Duw yn anfeidrol ddaionus, ac nid yn anfeidrol waeth na'r creadur, a bechod fwyaf yn ei erbyn, ac nid oes arnom eisiau cadarnach sail. "Nad yw cosp yn y byd dyfodol yn gerydd, o ganlyniad mae ei reswm wedi ei ddadymchwelyd." Ie yn wir "gan eich bod wedi profi." Attolwg pa bryd? ac ym mha le? A oes yn bossibl eich bod yn meddwl mai wrth waeddi "tan tragywyddol" "y pryf nid yw yn marw, a'r tan nid yw yn diffodd," "Gagendor mawr &c." a haeru fy mod i yn addef fod aionios yn arwyddo amser diddiwedd ond yn ei gysylltiad a *colasis* a'r cyffelyb bethau y profasoch hynny? Syr, dywedir i'r driw bach, pan yr oedd yr adar yn gallu siarad, i gymmeryd calon i hedfan i fforch derwen fawr, a chan roddi ergyd a'i bîg iddi, dywedodd "Mi fentraf yr hyllt hi," a rhag cwympo gyda'r golfen ehedodd ymaith ar ffrwst.

Mae amser yn pallu i mi ddywedyd rhagor nag mae fy enw ydyw,

J. JONES, *Aberdar.*

---

## BIBL CYMRAEG I'R CYMRY.

SYR,—Byddai yn dda gennaf pe y gwelech yn gymmwys i argraffu yn yr Ymofynydd y dernyn canlynol. Rhagymadrodd ydyw i "Lythyr Esgob Rysiart Dafis at y Cymry"—ar y testun uchod—gan P. W. (Y Parch. Peter Williams?) Cymmerwyd ef allan o'r 3edd. argraffiad Caerfyrddin, J. Ross, 1774. HENYDD.

### AT Y DDARLLENYDD.

*Ddarllenydd Anwyl,*—Dau beth sydd (yn bennaf) yn eisiau ar ddynion, yn enwedig y cyfryw ag fydd a'r Efengyl, &c., ganddynt: Hynny yw; 1. Eisiau gweled beth yw eu *gwir eisiau.* 2. Eisiau cael cyflawni eu *gwir eisiau.* Y Llythyr canlynol (i'm tyb i) a ddengys y naill ac a gyfarwydda i'r llall.—Y mae ar bawb eisiau adnabod DUW ac adnabod eu hunain; eithr pa fodd yr adnabyddwn heb y drych ysprydol, Y *Gair,* yr Efengyl, yr hwn sydd yn hyspysu DUW *yng* NGHRIST, a ffordd iachawdwriaeth *trwy* GRIST. Ni's gallwn weled yn *ysprydol,* heb oleu'r gair, mwy na gweled yn *naturiol,* heb oleu'r haul. Pa mor greulon, gan hynny, yw'r sawl a chwennychant gadw'r Efengyl oddiwrth y Cymry, neu guddio'r Ysgrythur

rhagddynt, dan orchudd yr iaith *Saesoneg*, &c. A'r rhyw honno o Fugeiliaid gonest y mae * Awdur hyawdl yn Gymraeg yn eu trin fel y canlyn; "Yn wir chwith iawn yw dal sulw ar lawer o Eglwyswyr Cymreig yn byw ar bris Eneidiau Dynion, a bagad eraill o Gymry yn cymmeryd arnynt eilun dysg a goruchafiaeth, heb ganddynt fri yn y byd ar iaith eu Gwlad, eithr rhusso ei dywedyd, a chywilyddio ei chlywed, rhag ofn ishâu ar eu gradd a'u cymmeriad; heb na medru darllain, na cheiso myfyrio dim a f'ai a ffrwyth ynddo 'n Gymraeg, megis mynnu o honynt i bobl dybied fod cymmaint eu rhagorfraint hwy, na weddai iddynt (fy eneidiau gwynnion) ostwng cyn iseled ag ymyryd a dim Addysg gymreig." Mewn lle arall fel hyn; "Rhyw wr eglwysig o Gymru, mewn eisteddfod, pan grybwyllwyd am roi cennad i un celfydd i breintio Cymraeg; yntef a ddywedodd, Nad cymmwys oedd gadael preintio math yn y byd ar Lyfrau Cymraeg, eithr ef a fynnai i'r Bobl ddysgu Saesonaeg, a cholli eu Cymraeg; gan ddywedyd ymhellach, Na wnai yr Bibl Cymraeg ddim da, namyn, llawer o ddrwg. Wele, onid rhinweddol a naturiol oedd, fod Eglwyswr fel hyn? A allasai ddiawl ei hun ddywedyd yn amgenach? Nid digon oedd ganddo ef yspeilio'r cyffredin o'u da daearol, ond ef a fynnai gwbl anrheithio eu heneidiau hwynt hefyd. 'Herwydd, pwy ni wyr, mor amhossibl fyddai dwyn yr holl bobl i ddysgu Saesonaeg, ac i golli eu Cymraeg; ac mor resynol yn y cyfamser fyddai colli peth aneirif o eneidiau dynion, eisiau dysg y dawn i'w hyfforddi? ond tebyg oedd hwn i'r Ci yn gorwedd yn y Preseb, ni "wnai na bwyta Gwair ei hun, na gadael i'r Ych bori 'chwaith? Na b'o gwell helynt ei enaid ef nac oedd ei ystyriaeth fo am eneidiau eraill. Dywetted pawb, Amen, ac na chlywer byth mwy son am dano."—Diammeu, fod y Cymry o athrylith a naturiaeth mor barod i ddysgu daioni ag un genedl tan y nef, o's gellir eu perswadio mai daioni yw; am hynny edrychED Offeiriaid ac Athrawon, na fyddont yn achos trawgwydd i'r Cymry, trwy athrawiaeth gau a buchedd ddrwg.

Y mae'r Llythyr hwn yn brawf, fod gynt yng Nghymru wyr urddasol, ac Esgobion rai yn hyfforddus yn y Iaith Gymraeg; ac yn medru hyfforddi eu cydwladwyr yn y llwybr cul sy'n arwain i'r Bywyd. Gobeithio bydd i'r coffadwriaeth o honynt gyffroi eiddigedd dduwiol mewn rhai etto i ganlyn y cyfryw siamplau rhagorol. Anwyl Gymro, pwy bynnag wyt, sydd etto heb adnabod DUW, na chael ganddo galon newydd, mi a fynnwn dy gynghori yn ddioed, i lefain arno gyda'r Salmydd, "Arglwydd, dysg i mi dy gyfraith ac agor fy llygaid, fell y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th air di." Ond gan y dichon hwn, ysgatfydd, ddyfod i leoedd, ac at ddynion, na's deuaf fi byth, ac na's gwelaf fi eu hwynebau, y tu yma i dragywyddoldeb: mi a welais yn addas i ail argraffu'r Llythyr canlynol, yr hwn a 'fgrifennwyd gan un o frodorion Cymru (nid gan estron ddyn na's gwyr iaith y defaid, ac na's adwaen y defaid ei lais yntef, yr hwn sydd megis gwas cyflog, o's caiff ef y cnaif, ni waeth ganddo pe b'ai'r Diafol yn myned a'r Praidd) a 'sgrifennwyd meddaf, gan Esgob o Gymro, er ys dau can mlynedd, ac uchod, sef, yn nheyrnasiad y frenhines Elisabeth, ac a breintiwyd o flaen yr Argraffiad cyntaf o'r Testament newydd yn Gymraeg, sef cyfieithiad William Salsbri, ac a fu'n fuddiol iawn i hyfforddi ac awchu blas y Cymry at air Duw, a hwy etto heb eu tynnu allan oddi tan dywyllwch Pabyddiaeth, ac heb ddyhuno o drym-gwsg rhagfarn ac anwybodaeth; ac fe ddylid cofio hyn wrth ddarllen y Llythyr canlynol, o's amgen ni fydd mor ddealladwy nac mor fuddiol i'r Darllenydd. Darllain, ystyria, a defnyddia yr hyn a gynhwysir ynddo; ac felly gobeithio y deui i adnabod dy hun yn bechadur, a Duw yn Iachawdwr, sef trwy hyn ddefnyddio dy freintiau gwerthfawr, gwrando a ddarllain gair Duw, a gweddio arno, fel y gwnai dy Deidiau gynt, megis y tystia yr Awdur hwn: Felly gwna ditheu, ne's cei dy wisgo a'r un Cyfiawnder, a gorphwys yn yr un Nefoedd, gyd â'r OEN bendigaid; yr hyn yw dymuniad dy ufudd Was, ac Ewyllysiwr da dy Enaid.

P. W.

---

* Mr. M. Cyffin.

## HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

### Y SENEDD.

*Iuddewon yn y Senedd.*—Mae'n hysbys i'n darllenwyr ddarfod i'r weinyddiaeth yn eisteddfod 1849 ddwyn i mewn ysgrif tuag at alluogi Iuddewon i eistedd yn y Senedd, gyda chyfeiriad neillduol at etholiad y Baron Rothchild yn aelod i'r Senedd dros ddinas Llundain. Passiwyd yr ysgrif trwy dy y Cyffredin; ond gwrthodwyd hi gan yr Arglwyddi. Ar hyny etholwyd y Baron eilwaith. A bu disgwyliad o fis i fis y buasai y Weinyddiaeth i gynnyg ysgrif i'r un perwyl a'r un flaenorol. Ond yn gweled fo yr eisteddfod ar derfynu heb iddynt wneud un cynnyg, darfu i'r Baron wrth gyngor ei attegwyr, fyned ar y 26ain o Orphenaf i dy y Cyffredin i glaimio ei le a'i hawl. Cynnygwyd iddo gymeryd y llwon fel mae'n arferol ar y *Testament Newydd;* yntau a ddywedodd "ei fod yn ewyllysio eu cymeryd ar yr *Hen Destament.*" Ar hyn cyfododd dadl yn y Ty, yr hon a ohiriwyd i'r dydd Llun canlynol; pryd y penderfynwyd gan fwyrif o 113 yn erbyn 59, ei bod yn ddigonol iddo gymeryd llwon ar yr *Hen Destament*: tranoeth cymerodd y llwon yn null arferol yr Hebreaid, ond gan adael allan yn unig y geiriau "ar wir ffydd Cristion" *(on the true faith of a Christian).* Ac ar hyn etto aeth yn ddadl ynghylch yr anhepgorol angenrheidrwydd o arferyd y cyfryw eiriau, ac wedi areithio am oriau maith dros ac yn erbyn y peth cytunwyd ar ei gymeryd yn mhellach dan ystyriaeth. Ar y 5fed o Awst cafwyd y rhan amlaf dros y ddau benderfyniad canlynol: sef, 1. Nas gallai y Baron Rothchild yn gyfreithlon gymeryd ei le. 2. Bod y Ty yn ymrwymo i symud y rhwystr mor fuan a fyddo possibl yr eisteddfod nesaf.

Awst y 6fed pan ddaeth ysgrif y "bleidlais yn yr Iwerddon" eilwaith dan ystyriaeth yr Arglwyddi, boddlonwyd bellach ar fod £12 o rent i roddi hawl, yn lle £15 fel y penderfynasent o'r blaen. Dydd Mawrth y 13eg, terfynwyd yr eisteddfod gan y Frenhines yn bersonol. Nid oes dim yn ei haraeth sy'n galw am sylw neillduol. Cyfeiria gyda boddlonlwydd at y prif gyfreithiau newydd a wnaed yn yr eisteddfod ddiweddaf: sef, yr un "er llywodraethu yn well y tiriogaethau yn Awstralia"—yr un "er gwellhâu y gwasanaeth morwriaethol *(Naval Service)*"—yr un "er rhoddi i fynu yn raddol gladdedigaethau o fewn y Brif-ddinas"—"ehangiad y bleidlais yn yr Iwerddon"—ac ehangiad awdurdod y Cwrt bach *(Small Debts Court)* o fod am ddyledion dan £20 i £50, &c.

### Y LLYS.

Diwedydd Mercher y 21ain aeth y Frenhines a'r Tywysog Albert ar fordaith yn y Llong Frenhinol i Ostend, i ymweled a'i Hewythr Brenin Belgium. Dychwelodd y Llynges Frenhinol i Portsmouth y boreu dydd Sadwrn canlynol—yn fuan wedi'n symudwyd y Llys dros rai wythnosau, fel y llynedd, i Balmoral yn Scotland.

### DYHENYDDIADAU.

Mae'n aethus i feddwl fod cymaint o ddyhenyddiadau wedi cymeryd lle y mis Awst diweddaf. Crogwyd dau Wyddyl yn Nhref Fynwy, am fwrddro hen wraig ger llaw Casnewydd ar Wysg. Dywedai un o honynt, iddynt ei lladd am eu bod yn tybied fod bwyd ganddi yn ei basged. Dihenyddiwyd un Ross yn Nhaerefrog ac un Christopher yn Waterford—a llawer yn barnu fod y ddau yn ddieuog: Benyw o'r enw Curtis, yn Nghaerloyw, am wenwyno ei gwr, a dyn o'r enw Forbes yn Newcastle; ac un Bennison yn Scotland.

Y newyddion y mis diweddaf o America, ni roddent un gobaith am arbed bywyd Professor Webster. Bu y peth yn hir o dan ystyriaeth y Llys Taleithiol yn Boston, a daethpwyd i'r penderfyniad i adael y gyfraith i gymeryd ei chwrs. Darfu i Webster ddioddef ar y 30ain o Awst.

Mae y newyddiaduron Americanaidd a dderbyniwyd ar yr 16eg. yn rhoddi adroddiadau llawn o ddihenyddiad Professor Webster o fewn caerau y carchar yn Boston ar y 30ain o Awst. Heblaw awdurdodau y gyfraith yr oedd tua 200 o bersonau yn wyddfodol. Bu gwraig y carcharor a'i dair merch yn ymweled ag ef yn ei gell y prydnawn o'r blaen. Cy-

ffesodd Webster ei fod wedi llofruddio Dr. Parkman o rag-fwriad ac ei fod yn marw yn edifeiriol.

---

*Marshall Hainau.*—Mentrodd y gwr hwn a hynododd ei hun gymaint trwy ei greulonderau tuag at yr Hungariaid a syrthiasant i'w ddwylaw, ymweled â Llundain yn ystod y mis diweddaf. Ond cafwyd allan pwy ydoedd. Ac yntau a gafodd ei drin yn arw iawn gan y werin; nes gorfod cilio am ei einioes.

## FFRAINGC.

Gollyngwyd yr Assembly ar y 12fed o Awst. Y mae y Llwydd oddiar hyny wedi bod ar ymdaith, i ymweled a phrif ddinasoedd y taleithiau, gyda'r amcan i brofi teimladau y bobl tuag atto ef, medd rhai; ond meddai ef ei hun, i weled ansawdd ac anghenion y wlad. Nid yw yr hanesion a roddir yn y gwahanol Newyddiaduron, parth y groesawiad a gafodd ddim yn cytuno a'u gilydd. Bu *Louis Philippe*, farw ar y 26ain o Awst yn Claremont, ger Llundain. Er yn alltud o dir ei wlad, wedi colli ei goron, ac yn oedranus a methedig, yr oedd ganddo o hyd ddylanwad mawr ar gynghorion a chynlluniau y blaid honno yn Ffraingc sy dros adferyd y teulu Orleans i'r orsedd. Yr oedd M. Thiers ac eraill wedi bod yn ymweled a'u hen Feistr ychydig fisoedd yn ôl. Yr ymgeisydd arall am orsedd Ffraingc yw y Count de Chambord, Wyr Charles X. Bu efe yn ddiweddar yn Weis-Baden, lle y daeth blaenoriaid y Legitimists i ymweled ag ef, i ymgynghori yn nghylch ei ddychwsliad i frenhiniaeth Ffraingc dan y titl Henri V.

---

## GERMANY, &c.

Oddieithr yr ymrafael rhwng Denmarc a Holstein, y mae tawelwch mawr trwy Germany ar oll o'r Cyfandir. Ond i awdurdod y CLEDD yn unig y maent yn ddyledus am y tawelwch hwn. Nid oes i gyd ynghyd ddim llai na dwy filiwn o wyr dan arfau. Ac nid cyfrwysdra bychan a ddefnyddir yn dosparthu y rhain. Ni ymddiriedir i filwyr Deheudir Germany i amddiffyn eu gwlad enedigol, ond anfonir hwynt i wasanaethu ar lan y Baltic, tra y mae Pomeraniaid a Silesiaid yn offerynau i gadw dan llaw trigolion glennydd y Rhine. Defnyddir milwyr Hungaraidd yn yr Ital, ac Italiaid yn Hungary. Y fath drefn o lywodraethu, nis gall lai nâ bod yn niweidiol dros ben.

*Hesse Cassel.*—Yn yr ail wythnos yn yn mis Medi, cymerodd chwyldroad le yn Hesse Cassel, un o daleithiau Germany, yn cynnwys tua'r un faint o drigolion a Chymru. Dygwyd y peth oddiamgylch yn dawel ac heb dywallt gwaed; trwy offerynoliaeth y llysoedd gwladwriaethol. Yr achos uniongyrchol ydoedd, bod yr *Elector* wedi ceisio gosod o'r nailldu y cyfreithiau sylfaenol yn ol pa rai y llywodraethid Cassel dros yr ugain mlynedd diweddaf, gan gynnyg cwnni trethi mewn modd pen-arglwyddiaethol a chospi perchenog un o'r Newyddiaduron ag oedd wedi dywedyd yn erbyn yr anghyfreithlondeb. Appeliwyd at y llysoedd awdurdodedig, pa rai ar y 12fed a benderfynasant fod gorchymynion yr *Elector* a barthed i gwnni y trethi a gweithrediadau ei swyddogion yn groes i gyfreithiau'r wlad. Y noson honno ciliodd yr *Elector* mewn modd dirgelaidd a ffôdd i Hanover. Oddiar hynny dygir pob peth yn mlaen yn dawel ac yn rheolaidd yn Cassel.

Mae y newyddion diweddaf yn rhoi ar ddeall fod yr Elector yn cynnyg *abdicato.*

---

## BELGIUM.

Y mae llifogydd aruthrol wedi gwneud colledion a niwed mawr yn ddiweddar trwy ymron bob parth o Belgium. Yr oeddid yn nghanol y cynhauaf pan ddaeth llif dinystriol ar draws y wlad, gan gludo ymaith neu ddinystrio rhan fawr o gynnyrch y meusydd.

---

## DENMARC A HOLSTEIN.

Ar y 25ain o Orphenaf bu ymladdfa waedlyd, ger llaw Idstedt, rhwng byddin Denmarc dan dywysiad Von Krogh, a byddin Holstein dan Willisen. Nid oedd yr Holsteiniaid ond 28 mil; ond yr oedd y Daeniaid tua 45 o filoedd. Gorchfygwyd gwyr Holstein yn y frwydr; ond darfu iddynt grynhoi ynghyd wedi'n: ac y maent oddiar hyny hyd yn awr yn sefyll eu tir o dan amddiffynfa Rendsburg. Collwyd miloedd o fywydau yn y frwydr a chlwyfwyd llawer-

oedd o bob ochr. Y mae llywodraethau Ewrop wedi ceisio gwnethur heddwch rhyngddynt. Ni wyddys yn iawn pa un ai bydd eu penderfyniad hwy yn gymeradwy gan y ddwy blaid sy'n rhyfela ai peidio. Gobeithiwn na fydd rhagor o dywallt gwaed yn y cweryl bychan hwn.

---

## ATTEBION.

1 Ioan v. 20.—Atteb i ofyniad J. H. tudal. 170.

Mr. Ymofynydd,—Pan ddarllenais yn eich Rhifyn am fis Gorphenaf ofyniad J. Howell o'r Tyhir Llanboidy, am eglurhad ar 1 Ioan v. 20; gobeithiais y cawn ei weled yn eich rhifyn am fis Awst, ond nis cefais. Clywais i bregeth oleulawn ar yr adnod hon gael ei thraethu yn fuan ar ol hynny yn Rhydypark. Ond nis gwn i ddim, pa un a oedd John Howell yno a'i nad oedd. Rhag nad oedd, ac na chafodd foddlonrwydd mewn un modd arall, am feddwl yr adnod, cynnygaf iddo ef ac ereill trwy gyfrwng eich cyhoeddiad teg yr ychydig sylwadau canlynol.

Ymddengys i fi fod Ioan yn meddwl Duw a Thad pawb oll wrth yr ymadrodd "yr hwn sydd gywir," fel y mae'r Arglwydd Iesu wedi gwneud o'i flaen. Ioan vii. 28, "Am hynny yr Iesu wrth athrawiaethu yn y deml a lefodd, ac a ddywedodd, Chwi a'm hadwaenoch i, ac a wyddwch o ba le yr ydwyf i: ac ni ddaethum i o honof fy hun eithr y mae *yn gywir* yr hwn a'm hanfonodd i yr hwn nad adwaenoch chwi. Ond myfi a'i hadwaen, oblegid o hono ef yr ydwyf fi ac efe a'm hanfonodd i." Nid yw y tragywyddol a'r hollalluog Dduw *o neb* nac yn cael ei anfon *gan neb;* nac ychwaith (a siarad yn gywir) yn symmud o un lle i'r llall, gan ei fod yn llanw pob lle ar unwaith. Yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi ei eni cyn iddo ddyfod i'r byd, Ioan xviii. 37. "Er mwyn hyn y'm ganed ac er mwyn hyn y daethum i'r byd fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd." Yr oedd yn ddioddefydd wrth gael ei eni; ond yn weithredol o'i ewyllys ei hun yn dyfod i'r byd, sef dyfod yn ddysgawdwr cyhoedd. Mae'n debyg ei fod ynghylch 30 oed cyn iddo ddyfod i'r byd, neu ddyfod yn ddysgawdwr cyhoedd. Yr oedd Ioan yr hwn oedd lai na blwydd yn ieuangach [henach?] nac efe, yn pregethu o flaen ei ddyfodiad ef.

Ioan i. 6. "Yr ydoedd gwr wedi ei anfon oddi wrth Dduw a'i enw Ioan. Hwn a ddaeth yn dystiolaeth fel y tystiolaethai am y goleuni." Nid dyfod o fyd arall i'r byd hwn wnaeth Ioan, ond dyfod yn athraw cyhoedd wnaeth. 2 Ioan vii. "Oblegid y mae twyllwyr wedi dyfod i mewn i'r byd y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd." Nid dyfod o fyd arall i'r byd hwn yr oedd y rhai hyn, ond dyfod i gyhoeddi eu hathrawiaethau yr oeddent. Felly yr oedd yr Arglwydd Iesu yn dyfod yn athraw cyhoedd i ddyscu gwirionedd gwerthfawr yr Efengyl.

"Ac a roes i ni feddwl,"—trwy ei athrawiaeth nefol, ei siampl bur, a'i addewidion gwerthfawr; fel trwy eu cynhorthwy yr adnabyddem y Tad trugarog, tosturiol a maddeugar, yr hwn sydd yn maddeu eu pechodau i afradloniaid ar eu dychweliad oddiwrth eu hafradlonrwydd, ac wedi darparu bywyd o dragywyddol wynfyd i bawb fyddo wedi meithrin egwyddor ac anian cymmwys i'w fwynhau. "*Y cywir hwnnw*" yw y Tad yr hwn a'i hanfonodd ef. Ioan xii. 28, "Ni ddaethum o honof fy hun, eithr y mae yn gywir yr hwn a'm hanfonodd i." Adnabod y Tad gan hynny yw adnabod yr hwn sydd gywir.

"Ac yr ydym yn y cywir hwnnw," trwy ei garu a chadw ei orchymynion.

Yma y mae y cyfieithwyr Trindodaidd wedi gosod i mewn y gair bach *sef*, yr hwn sydd yn peri llawer o dywyllwch yn y synwyr; am hynny, am nad yw ond gair dyn ac nid gair Duw, gadawn ef allan. Yna ni a gawn y rhan olaf o'r adnod fel hyn. "Ac yr ydym yn y cywyr hwnnw, yn, neu trwy ei fab ef Iesu Grist. Hwn yw'r gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol." Pwy yw y gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol? Iesu Grist? Os felly y mae yn cau allan y Tad oddiwrth Dduwdod yn llwyr, ac felly hefyd yr Ysbryd Glan. Os y Mab yw y gwir Dduw a'r bywyd tragywyddol, ni all fod un person arall yn Dduw, canys un Duw sydd.

Gelwir ui drachefn a thrachefn at yr adnod hon fel prawf pendant o Dduw-

dod Crist, yn ol rheolau Grammadeg; megis pe byddai GrammadegMurray neu Lennie, wedi eu ysgrifennu yn y nefoedd. Canys y grammadegwyr hyn ac ereili a gynghorant eu darllenwyr fod y rhagenw perthynol i gyfeirio at yr enw blaenorol nesaf atto. A ydyw y rheol hon yn cael ei chadw bob amser yn yr ysgrythyrau? Nag ydyw. Pe dilynem y rheol hon ymhob man wrth esbonio'r ysgrythyrau gwnaem y dyryswch mwyaf o honynt. Act. vii. 18, 19, "Hyd oni chyfododd brenin arall yr hwn nid adwaenai mo Joseph. Hwn a fu ddichellgar wrth ein cenedl ni ac a ddrygodd ein tadau gan beri iddynt fwrw allan eu plant fel na epilient." Pwy fu ddichellgar wrth ein cenedl ni? Yn ol y rheol uchod Joseph oedd ef. Ond gwyr pob darllenydd deallus mai Pharaoh a feddylir yma, er mai Joseph yw y rhagflaenor nesaf at y gair perthynol *hwn*. Un siampl yn chwaneg fydd ddigon i gall: i angall nid digon mil. Ail Epistol Ioan 7. "Oblegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw'r twyllwr a'r anghrist." Pwy yw'r twyllwr a'r anghrist? Iesu Grist yw y rhagflaenor nesaf at y gair perthynol hwn. Ond gwel pob un ar darawiad amrant nad Iesu Grist oedd yngolwg Ioan; ond mai'r twyllwyr hyny oeddent y rhai nid oeddent yn cyffesu ddyfod Iesu Ghrist yn y cnawd, neu yn ddyn mewu gwirionedd yn gystal ag mewn ymddangosiad. Ac er fod y rhagflaenor twyllwyr yn y rhif liosog a'r gair perthynol hwn yn y rhif unigol, etto gwel pob dyn rhesymol fod yn rhaid cyfeirio y gair hwn, nid at Iesu Crist y rhagflaenor nesaf atto, ond at y rhagflaenor cyntaf sef twyllwyr, neu un o honynt. Felly gwnawn yr un modd a'r gair hwn yn yr adnod tan sylw trwy ei gyfeirio at yr hwn sydd gywir, sef at y Tad yr hwn a anfonodd yr Iesu, ac yna diflanna pob anhawsdra.

CLEMENS.

---

ATTEB I OFYNIAD J. H. A'R 1 IOAN v. 20. (tudal. 170.)

MR. GOLYGYDD,—Mae'n ddrwg gennyf fod "gofyniad" John Howell, yn eich Rhifyn 35 (Gorph. 1850) gwedi bod cyhyd heb ei atteb. Mae'r iaith, a'r yspryd ym mha un y cynnygir y gofyniad y fath, ag sydd yn dangos meddwl difrifol ar ymofyngar; a chyda llawer o bleser yr ydwyf yn cynnyg y sylwadau canlynol ar 1 Ioan v. 20.

Sylwer yn gyntaf nad yw'r gair "*sef*" (in Italics) yn perthyn i'r adnod, ac fod y gair "*yn*" ei Fab, yn cael ei esponio gan Drindodiaid dysgedig, *trwy* (en) ei Fab; ac yna y darllenir yr adnod fel hyn; "Ac a wyddom ddyfod Mab Duw, ac efe a roes i ni feddwl fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir. Ac yr ydym yn y cywir hwnnw, yn (trwy) ei Fab ef Iesu Grist. Hwn yw y gwir Dduw, a'r bywyd tragywyddol." Mae'r Saesueg yn well cyfieithiad na'r Cymraeg; o herwydd fod y gair "*cywir*" a "*gwir*" yr un peth (*alethinos*) yn y Groeg ac hefyd yn y Saesneg (*true*). Yn ol y Saesneg, mae'r adnod fel y caniyn; "Ac a wyddom ddyfod Mab Duw, ac efe a roes i ni feddwl (wybodaeth) fel yr adnabyddom yr hwn sydd *wir*, (true). Ac yr ydym yn y *gwir* (true) hwnnw, yn (trwy) ei fab ef Iesu Grist. Hwn yw y GwirDduw, a'r bywyd tragywyddol."Fe welir ar unwaith fod y gair "Gwir," yn y rhan flaenaf o'r adnod, yn cyfeirio at y Tad; ac wrth ddarllen yr adnod yn ofalus, fe welir yr un mor amlwg fod, "Hwn yw y Gwir Dduw, &c." yn y rhan olaf o'r adnod yn cyfeirio at yr un gwrthrych.

Fe haera rhai fod y geiriau "Hwn yw y gwir Dduw, &c." yn rhwym o gyfeirio at Grist, y gair nesaf attynt. Ond nid oes neb yn haeru hyn ag sydd yn gynnefin ag iaith y Testament Newydd. Gwel 2 Ioan 7. "Oblegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, y rhai did ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw y twyllwr a'r anghrist." Pwy yw'r twyllwr a'r anghrist? Nid Crist y gair nesaf at "hwn," ond y twyllwyr (un o honynt) yn nechreu'r adnod. Gwel hefyd Actau vii, 19, X. 6. &c. &c.

Mae'n dda'gennyf fod yn alluog i chwanegu fod y mwyaf dysgedig a diduedd ym mhlith fy mrodyr Trindodaidd o'r un feddwl a mi mewn perthynas i'r adnod dan sylw. Gwel Grotius, Clarke, Benson, Wetstein, Schleusner, &c. Yr eiddoch, &c.,

Medi 29th. 1850. D.

## BARDDONIAETH.

OLYGYDD MYGEDAWL,—Gwelais yn yr YMOFYNYDD am, fis Medi diweddaf (1849), Gân dan yr arwyddair "Crwydryn Amddifad." Nis gwyddwn y pryd hyny pwy oedd yr Awdwr, am na roes ei enw priodol; ond deallais wedi hyny mai cyfaill hoff a pherthynas agos yw. Teimlaf, gan hyny, yn ddiolchgar i chwi am le yn yr YMOFYNYDD nesaf i'r hyn a ganlyn fe cyfarchiad i'r "Crwydryn," sef William Jenkins, Dinas.

Yr eiddoch yn serchog,

Coedbychan, Mehefin 28aiu, 1850.

DAVID EVANS.

O GWRANDO, f'anwyl gefnder bach,
Mi welais geinwych gan,
Yn ddarlun teg o un o f' ach
Yn crwydro heb dy na than,
A'i anwyl fam sydd yn y bedd
Yn dawel gyda'u dad,
Ac yntau'n wylo'n brudd ei wedd,
Yn grwydryn hyd y wlad.

Mae rhywbeth sydd yn hynod dlws
Trwy'th ddarlun o'r hen flyrdd,
Lle mae y iorwg uwch y drws
Yn tyfu eto'n wyrdd;
A'r fedwen fawr gysgodol sydd
Yn tyfu ar lan y nant:
Er pan y daeth o groth y pridd
Bu farw lawer cant.

Mi gollais innau anwyl fam
Fel tithau, Gwilym bach;
Er hyny byth, dan bob rhyw gam,
Ni theimlais hanner iach,
Nes imi droi fy wyneb draw,
A gwel'd morwynig hardd
Yr hon a ddaeth o'i bodd, heb fraw,
Dan gwlwm gyda'r Bardd.

Rhyw ddyddiau hyfryd oedd y rhai'n,
Ond 'hedeg wnaethant 'ffwrdd;
A marw wnaeth fy meinir gain—
Daeth gwae yn ol i'm cwrdd.
Peth trwm yw archoll, meddant hwy,
F'o ar y fraich neu'r glin,
Ond trymach fyth, ail waedu chwys,
Ar galon dyner dyn.

Mae genyf fi amddifaid bach
Yn wylo am eu mham,
Heb ond eu tad, yn glaf neu iach,
I'w cadw rhag cael cam.
Gallesid meddwl wrth dy gân
'Doedd neb mor drist a thi;
Ond dan ofidiau, fawr a mân,
Wyt frenin arnaf fi.

'Rwyt ti yn gallu myn'd a d'od
Heb neb yn gofyn p'am
Y buost ey'd;—'tai hyny'n bod,
Ti elli ateb—Am
Dy fod yn rhydd, fel ceiliog du,
Fo'n odli ar y graig,
Yn denu Gwen a'th gathlau cu
Er dyfod iti'n wraig.

A thyma yw fy nghynghor i
I ti fy nghytaill mwyn,
Yw dewis gwraig; a chyda hi
Y peraroglau swyn;
Sef, synwyr, rhinwedd, gwychedd gwawr,
Bydd hyny'n well na'r modd
A eilw'r byd yn drysor mawr—
Ti fyddi wrth dy fodd.

Cai gyda honno bob mwynhad
O dan dy droion dwys;
Anghofi dy gyfeillion mâd
Sy'n gorwedd dan y gwys.
Er hyny doeth fydd cofio daw
Dy ddyddiau ditha'i ben,
Pan saif cyfeillion goraf draw
I'th ollwng dan y llen.

Fydd dim i ti na uinnau'n werth
Pryd hyn ond cael i'n rhan
Y Gwr fu'n rhodio'r moroedd certh
Yn blaid i'r enaid gwan:
'Cheir dim gan holl anwylion byd
Ond wylo ac ysgwyd llaw;
Fe ddaw y Cyfaill hwn o hyd
I'r llys sy'r ochor draw.

DEWI HARRAN.

O.Y.—Na feddylied neb fy mod yn ystyried fy mhennillion heb lawer o feiau ynddynt, megys unig a lliosog, &c. Wele hwynt fel y daethant ar fy meddwl.—D. H.

## ENGLYN.

"Est dibyn dobyn ar d'ebawl—gorwyllt
I'r g'wared aruthrawl;
Trugaredd tra rhagorawl,
N'adai ddyn neidio i ddiawl."

*Aberdar, Awst 20fed,* 1850. J. JONES.

## TY DDUW YN OGOF LLADRON.—Matt. XXI, 13.

Gwae ni ! mae rhagrith yn goresgyn,
Yn traws-feddiannu'r ddaear faith ;
Ymrithio'n angel y mae'r gelyn,
Ymrwyfo'n ellyll yn ei waith ;
A llafar ffug, fal oen yn dirion,
Ag araith yn dynwared Pwyll
Mae'n flaidd i'r eithaf yn ei galon,
A'i grefydd wag yn eitha twyll.

Mae'r ffug-dduwioldeb, gwae ni'r olwg,
Yn ymganghenu dros ein tir ;
I ddoethion Duw mae hyn yn amlwg
Mae llaw 'mhob man ar enau'r gwir ;
Llu'rTraehwant rheipus drwy'n ardaloedd,
Y beilchion yn arswydus haid ;
Holl blant y byd, yn fawr eu lluoedd,
Certh-ymfyddinant yn ei blaid.

Fe welir lleng dan fantell crefydd,
Yn hudo'r deillion ym mhob gwlad
Gan drwm ergydio'r un a genfydd
Dichellion yr annuwiol gad ;
Yr un fo'n yn-gan llais gwirionedd,
Dan draed y byd mae hwnnw'n sarn ;
Ni chredant air am awr dialedd,
Un sill am Dduw a'i gyfiawn farn.

Chwanegu maes at faes, fe welir,
Mae crafange anraith ym mhob man ;
Rhoi'n llwch y llawr pob gwarddyn cywir,
Rhoi sodlau'n drymion ar y gwan ;
Gan ymhyfrydu 'mhob creulonder,
Mae'r hunan balch yn boeth ei fryd ;
Y golud bydol, nid cyfiawnder,
Sy'n llywodraethu 'n hyn o fyd.

Mae rhwysg hunaingais bydol grefydd
Yn bwystfileiddio calon dyn ;
Mae'n gyrru'r gwir o'n holl eglwysydd,
Pob drwg, pob twyll ag ef yng nglyn ;
Y balch trwynuchel, carngybyddion,
Coronog ddreigiau maes y gwaed ;
Ty gweddi gwnant yn ogof lladron ;
Mae'r byd yn griddfan dan eu traed.

Allan o Salmau Iolo Cyfr. I.

## CADERNYD Y CYFIAWN.—Ps. XV.

Mae'n oriau 'n fuan ar eu taith
I fyd y trag'wyddoldeb maith :
O Dduw ! pwy o'r genhedlaeth hon
A safant yno ger dy fron ?

Pa berchen cnawd a saif yn gawr
Yn wyneb dydd y cyfrif mawr ?
Dydd arswyd pan y'n dygir ni
O'n Duw ! ger bron dy frawdle di.

Saif ef, y dyn diniwed gwar
A wnelo iawnder ac a'i car ;
A wnelo'th wyllys, Ior y nef !
Yn reol hardd ei fuchedd ef.

Holl wynfyd hwn yw cynnal hedd,
Cyfnerthu'r cyfiawn ymhob gwedd ;
Pob senn, pob athrod, a phob gau,
Mae'n gadarn yn eu llwyr gashau.

Mae'n fab i'n Duw, 'n drugarog iawn,
A chariad ynddo 'n llifo'n llawn ;
Fe wrendy gwyn y gwan a'r tlawd,
A chalon dyner megis brawd.

Ei law'n egored i bob cais,
Holl nerth ei bwyll yn erbyn trais ;
Ar Dduw gweddia'n daer ym mhlaid
Ei elyn tanllyd yn ddibaid.

Ni syfl, er goddef eitha dir
Led mymryn haul oddiwrth y gwir ;
Fe geidw ei air, ni wyrir ef ;
Mae'n gadarn fal sylfeini'r nef.

Nid neb ond hwn a saif ei dir
Pan f'o barn Duw'n amlygu'r gwir ;
Saif hwn ar sail ei galon lan,
Saif lle bo'r bydoedd oll ar dan.

Salmau yr Eglwys, gan Iolo Morganwg, Cyfr. I, Salm. 195.

Y Llinellau canlynol a gyfansoddwyd ar yr achlyssyr o ddyfodiad I. Inglis Jones, Ysw., Dery Ormond i'w oedran etifeddol ar y 15, o Orphenaf.

Minnau a ddymuna'
I'r gorau fal hawddgara'
Hir oes i fyw yn mhlas ei Dad
Er elw i wlad Walia.

Boed tafod yr etifedd,
Gwar enwog mewn gwirionedd ;
Mal tafod Peel ar fyr o dro,
Yn swnio yn y Senedd.

Na eled byth ei galon
Ar 'difeddesau'r Saeson,
Ond aeres lon ddwyfron ddifreg
Gordeg o Geredigion.

I'w ddwyfron byth o ddifri
Dymunem bawb ddaioni,
A phob bendithion fyddon stor
Tu fewn i ddor y Dderi.

D. Farfog.

*D. Evans, Argraffydd, Caerdydd.*